

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

55/2017

DYDDIAD CYHOEDDI:

29/09/2017

Chi a'ch Arolwg Ysgol:

Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

Chi a'ch Arolwg Ysgol:

ADRODDIAD AR DROSOLWG O GANLYNIADAU'R AROLWG

Marian Morris, Mark Bradshaw a Christopher Carr, SQW

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Joanne Starkey

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

0300 025 0377

joanne.starkey@llyw.cymru

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2017

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

Cynnwys

Geirfa.	2
Crynodeb	3
1. Cyflywniad	7
2. Agweddau pobl ifanc at yr ysgol	13
3. Agweddau pobl ifanc at ddysgu ac ymddygiad	19
Atodiad A: Diben yr arolygon	23
Atodiad B: Proffil y disgyblion a gymerodd ran	27
Atodiad C: Dadansoddiadau ffactor o'r arolwg disgyblion	31
Atodiad D: Paratoi data arall i'w ddadansoddi	34
Atodiad E: Dadansoddi amrywiant	35
Atodiad F: Ymatebion i'r Arolwg 'Chi a'ch Ysgol'	36
Atodiad G: Cyfeiriadau	121

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

Geirfa

CATI	Cyfweliadau dros y Ffôn gyda Chymorth Cyfrifiadur
FAS	Graddfa Cyfoeth Teuluoedd
PtS	Ysgolion Llwybrau Llwyddiant
SCC	Her Ysgolion Cymru
Clwstwr o ysgolion	Grŵp o ysgolion sy'n dangos tystiolaeth o weithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd

Crynodeb

1. Nod Her Ysgolion Cymru oedd darparu cymorth dwys a phwrpasol i 39 o ysgolion uwchradd (a'u clystyrau) a oedd yn tangyflawni er mwyn ceisio codi cyrhaeddiad a sgiliau mewn ysgolion yng Nghymru. Roedd pob un o'r ysgolion a dargedwyd (ysgolion Llwybrau Llwyddiant) yn wynebu amgylchiadau heriol gwahanol, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, amddifadedd economaidd-gymdeithasol a/neu lefelau crynswth cyrhaeddiad isel.
2. Lluniwyd arolwg llais y disgybl (Chi a'ch Ysgol) i gasglu gwybodaeth am ganfyddiadau disgyblion mewn ysgolion Llwybrau Llwyddiant (a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo) o'u hamgylchedd dysgu a'u profiadau dysgu. Er mwyn adlewyrchu amrywiaeth eang o ymatebion disgyblion, a newidiadau mewn ymatebion dros amser, roedd yr arolwg yn cynnwys elfennau trawstoriadol a hydredol. Cwblhawyd yr arolwg gan ddisgyblion Blynyddoedd 6, 7 a 9 yn 2014/15, ac i'r graddau posibl, cwblhaodd yr un disgyblion yr arolwg yn 2015/16, pan oeddent ym Mlynyddoedd 7, 8 a 10.

Crynodeb o'r canfyddiadau

3. Yn 2014/15, nododd mwy o ddisgyblion yn y carfannau hŷn (Blynyddoedd 7 a 9) fod amrywiaeth ehangach o dulliau addysgeg ar waith yn yr ystafell ddosbarth (ac yn yr amgylchedd dysgu yn ehangach) o'i gymharu â disgyblion iau (Blwyddyn 6). Roedd newid arwyddocaol yn ystadegol yn nifer canolrif y strategaethau a nodwyd gan bob grŵp blwyddyn (rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 9). Fodd bynnag, yn 2015/16, nid oedd unrhyw newidiadau arwyddocaol yn nifer y dulliau a nodwyd gan ddisgyblion ym Mlynyddoedd 7, 8 neu 10, sy'n awgrymu bod rhai newidiadau cadarnhaol wedi'u rhoi ar waith yn yr amgylchedd dysgu ac addysgu mewn ysgolion Llwybrau Llwyddiant.
4. Roedd disgyblion hŷn yn llawer llai tebygol o fod ag agwedd gadarnhaol ynglŷn â'u profiadau ysgol na disgyblion iau. Yn ystod y ddau arolwg (2014/15 a 2015/16), roedd disgyblion iau yn tueddu i:
 - nodi eu bod yn cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau corfforol
 - bod yn hapusach yn yr ysgol (roedd disgyblion Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7 yn hapusach na disgyblion Blynyddoedd 8, 9 neu 10), ond yn llai tebygol o nodi bod ganddynt berthynas dda â'u cyd-ddisgyblion
 - bod yn fwy cadarnhaol am eu perthynas â'u hathrawon, gan nodi bod ganddynt ddiddordeb
 - bod yn llai tebygol o gyfeirio at driwanta neu fod yn hwyr am wersi

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

5. Roedd disgyblion hŷn yn tueddu i:
 - fod yn fwy tebygol o nodi bod eu hathrawon yn defnyddio dulliau addysgeg wahanol, neu gyfeirio at gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol y tu allan i'r ystafell ddosbarth
 - bod â llai o ddiddordeb yn yr ysgol (roedd gan ddisgyblion a gafodd eu holrhain o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 8 fwy o ddiddordeb, ond roedd gan ddisgyblion a gafodd eu holrhain o Flwyddyn 9 i Flwyddyn 10 lai o ddiddordeb)
 - meddwl bod yr ysgol yn eu paratoi'n dda ar gyfer y dyfodol
 - cael eu hysbrydoli'n llai gan farciau da neu'n meddwl bod yr ysgol yn werth chweil
6. Cafodd tri Grŵp ysgol ei greu drwy wneud gwaith maes manwl mewn ysgolion, sef:
 - **Grŵp A:** Ysgolion lle'r oedd ansawdd y ddarpariaeth fel pe bai'n dirywio cyn iddynt gymryd rhan yn Her Ysgolion Cymru
 - **Grŵp B:** Ysgolion lle'r oedd ansawdd y ddarpariaeth yn ymddangos yn sefydlog, ond y credid bod angen ei gwella, cyn iddynt gymryd rhan yn Her Ysgolion Cymru
 - **Grŵp C:** Ysgolion lle'r oedd ansawdd y ddarpariaeth wedi dechrau gwella, ond bod angen cymorth ychwanegol i wella'r broses, cyn iddynt gymryd rhan yn Her Ysgolion Cymru.
7. Yn 2014/15, o'i gymharu â'u cyd-ddisgyblion mewn ysgolion Grŵp C a Grŵp B, roedd disgyblion mewn ysgolion Grŵp A:
 - yn fwy tebygol o ganmol y cyfleusterau yn eu hysgolion, ond yn llai tebygol o nodi cyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau
 - yn fwy tebygol o nodi eu bod yn derbyn cymorth rheolaidd i wneud eu gwaith cartref gan bobl o'r tu allan i'w hysgol
 - yn fwy tebygol o feddwl bod eu hathrawon yn gefnogol, ond yn llai tebygol o nodi bod ganddyn nhw (fel disgyblion) ddiddordeb llawn yn yr ysgol.
 - yn fwy tebygol o'u hystyried eu hunain yn ddysgwyr annibynnol ond yn llai tebygol o feddwl bod yr ysgol wedi'u paratoi'n dda ar gyfer y dyfodol a'r byd gwaith

Chi a'ch Arolwg Ysgol:

Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

- yn fwy tebygol o nodi eu bod nhw (neu eu ffrindiau) wedi triwanta, neu eu bod wedi cyrraedd yr ysgol neu wersi yn hwyr.
8. Erbyn 2015/16, nodwyd bod nifer o'r gwahaniaethau hyn (yn ymwneud â chyfleusterau, ymreolaeth a gwaith cartref) **heb fod yn arwyddocaol bellach**, a'r prif wahaniaethau arwyddocaol rhwng disgyblion mewn ysgolion Grŵp A a disgyblion eraill oedd bod disgyblion mewn ysgolion Grŵp A:
- yn llai tebygol o nodi bod amrywiaeth eang o ddulliau addysgeg ar waith yn yr ystafell ddosbarth (ac eithrio ym Mlwyddyn 10)
 - yn fwy tebygol na'u cyd-ddisgyblion o feddwl bod eu hathrawon yn gefnogol ac yn dangos parch
 - yn llai tebygol o nodi bod eu rhieni yn mynychu nosweithiau rhieni
 - yn fwy tebygol o nodi eu bod nhw (neu eu ffrindiau) wedi triwanta neu eu bod wedi cyrraedd yr ysgol neu wersi yn hwyr yn rheolaidd
9. Roedd gwahaniaethau rhwng disgyblion mewn ysgolion Grŵp C ac ysgolion Grŵp B, ond yn 2014/15 roedd disgyblion mewn ysgolion Grŵp C yn tueddu i feddwl bod athrawon yn cefnogi strategaeth gwaith cartref, a'u bod yn marcio gwaith cartref yn fwy rheolaidd. Roedd ganddynt agwedd lai cadarnhaol at allu eu hathrawon i reoli dosbarthiadau, ac roeddent yn llai tebygol o feddwl bod eu rhieni'n darparu lefel uchel o gymorth o'i gymharu ag agweddau disgyblion mewn ysgolion Grŵp B. Fel sy'n wir am ysgolion Grŵp A, nid oedd rhai o'r gwahaniaethau arwyddocaol a nodwyd yn 2014/15 yn arwyddocaol mwyach yn 2015/16. Erbyn hynny, roedd disgyblion mewn ysgolion Grŵp C yn tueddu i feddwl eu bod wedi'u paratoi'n well ar gyfer y dyfodol o'i gymharu â'u cyd-ddisgyblion mewn ysgolion Grŵp B a Grŵp A.
10. Roedd llai o wahaniaethau rhwng y rhywiau, ond yn 2014/15 roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o feddwl bod eu gwaith yn ddiddorol, gan nodi bod ganddynt fwy o gyfleoedd i dderbyn adborth ar eu perfformiad. Mewn cyferbyniad, roedd bechgyn yn tueddu i fod yn fwy cadarnhaol am eu perthynas â'u ffrindiau ac yn fwy tebygol o feddwl bod eu hathrawon yn gefnogol. Erbyn 2015/16, roedd y prif wahaniaethau rhwng y rhywiau a ddaeth i'r amlwg yn ymwneud â mynediad i gyfleusterau ysgol gwahanol (ac agweddau cadarnhaol atynt) a nifer y disgyblion a oedd yn nodi eu bod wedi triwanta (yn uwch ymysg bechgyn) a'u bod wedi cyrraedd gwersi yn hwyr (yn uwch ymysg merched).

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

Crynodeb

11. Rhaid nodi mai astudiaeth beilot oedd hon a bod nifer cyfyngedig o gwestiynau yn yr arolwg. Nid oedd yn cynnwys digon o ysgolion/disgyblion i allu cynnal gwaith modelu hierarchaidd na dadansoddiad ystadegol cymhleth. Serch hynny, roedd yr astudiaeth beilot wedi dangos:
- parodrwydd ymysg ysgolion i gymryd rhan mewn arolygon llais y disgybl (ond nid pob blwyddyn neu gyda phob grŵp blwyddyn o reidrwydd)
 - nid oes gan bob ysgol y gallu i gymryd rhan mewn arolygon ar-lein, ond mae'r cyfraddau ymateb yn awgrymu bod modd cynnal arolygon ar-lein
 - mae'n bosibl na fydd ymatebion yn ddiduedd oddi mewn i ysgolion (o ran dethol cyfranogwyr) yn ogystal â rhwng ysgolion
 - gall dadansoddiad cymharol o safbwyntiau disgyblion ddarparu gwybodaeth am agweddau newidiol wrth iddynt ddatblygu, amlygu meysydd posibl i'w newid mewn ysgolion (helpu disgyblion i deimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo neu nodi meysydd lle mae angen cymorth ychwanegol) a darparu gwybodaeth am newidiadau ar lefel ysgol gyfan a all adlewyrchu effaith ymyriad allanol.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Nod Her Ysgolion Cymru oedd darparu cymorth dwys a phwrpasol i 39 o ysgolion uwchradd¹ (a'u clystyrau) a oedd yn tangyflawni er mwyn ceisio codi cyrhaeddiad a sgiliau mewn ysgolion yng Nghymru. Roedd pob un o'r ysgolion a dargedwyd (ysgolion Llwybrau Llwyddiant) yn wynebu amgylchiadau heriol gwahanol, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, amddifadedd economaidd-gymdeithasol a/neu lefelau crynswth cyrhaeddiad isel.
- 1.2 Roedd y rhaglen yn canolbwyntio'n bennaf ar wella'r strategaethau arwain yn yr ysgolion hyn a gwella eu dulliau o addysgu a dysgu. Y bwriad oedd sicrhau bod disgyblion ar eu hennill yn y pen draw drwy wella prosesau targedu a darpariaeth addysgol, a bod datblygiad yn cael ei amlygu drwy wella presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad (gan gynnwys cau unrhyw fwch mewn deilliannau â chyd-ddisgyblion llai difreintiedig) a thrwy hyrwyddo hyder a diddordeb disgyblion ac agweddau cadarnhaol at ddysgu (gan gynnwys codi dyheadau).
- 1.3 Felly, er mwyn nodi effaith y rhaglen ar ddisgyblion, roedd angen ystyried y deilliannau 'caled' (mesuradwy) a'r deilliannau 'mwy meddal' sydd, yn ôl gwaith ymchwil blaenorol, yn rhagflaenu llwyddiant (Morris a Rutt, 2006). Nod yr arolwg peilot o lais disgyblion (Chi a'ch Ysgol) oedd ceisio deall safbwyntiau disgyblion ar eu hamgylchedd a'u profiadau dysgu, y cymorth sy'n cael ei roi iddynt gan eu hathrawon a'u rhieni ac (i'r graddau posibl) yr effaith ar eu safbwyntiau a'u dyheadau ar gyfer eu cynnydd fel dysgwyr.

Amcan yr arolwg

- 1.4 Wrth ofyn am yr arolwg, roedd gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn nifer o bethau gwahanol. Y nod cyntaf oedd canfod a fyddai ysgolion yn cymryd rhan mewn arolwg o'r fath ai peidio (ac a fyddai'n well ganddynt gymryd rhan ar-lein neu ar ffurf papur). Yr ail nod oedd canfod a fyddai safbwyntiau disgyblion (gan gynnwys eu safbwyntiau ar elfennau Her Ysgolion Cymru a allai effeithio arnynt) yn cael eu defnyddio a) gan ysgolion i lywio eu cynlluniau datblygu ysgol a b) i hysbysu Llywodraeth Cymru am gynnydd ac effaith Her Ysgolion Cymru.
- 1.5 Er mwyn casglu amrywiaeth eang o ymatebion disgyblion, a chofnodi'r newid mewn ymatebion dros amser, roedd arolwg Llais y Disgybl yn cynnwys elfen drawstoriadol a hydredol. Nod yr elfen hydredol oedd olrhain tair carfan o ddisgyblion (y rhai a oedd ym Mlynnyddoedd 6, 7 a 9 yn 2014/15) drwy ddau

¹ Roedd 40 o ysgolion yn y lle cyntaf, ond fe unodd dwy ysgol maes o law.

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

arolwg, y naill yn 2014/15 a'r llall yn 2015/16. Gofynnwyd **cwestiynau craidd** (gan ddefnyddio fformat cwestiwn caeedig) i'r holl ddisgyblion er mwyn ystyried eu profiadau, eu hyder a'u cymhwysedd canfyddedig. Datblygwyd **cwestiynau teilwredig**, ar sail carfan ac oedran, ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 6), Cyfnod Allweddol 3 (Blynyddoedd 7, 8 a 9) a Chyfnod Allweddol 4 (Blwyddyn 10).

Recriwtio a chyfranogi

Ton 1 (2014/15)

- 1.6 Yn 2014/15, gwahoddwyd pob un o'r 39 o ysgolion Llwybrau Llwyddiant i ofyn i'w disgyblion yn y carfannau perthnasol gymryd rhan yn yr arolwg, gan gwblhau'r holiadur ar-lein neu ar ffurf papur (yn unol â dewis yr ysgol) drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Cwblhawyd yr arolwg gan gyfanswm o 3,918² o ddisgyblion o 57 ysgol (28 ysgol gynradd ac 19 o'r 39 o ysgolion Llwybrau Llwyddiant) yn ystod tymor yr haf 2014/15 (ym mis Mehefin a Gorffennaf). Cwblhaodd dros bedair rhan o bump o'r ymatebwyr (3,161) yr arolwg ar-lein, gyda 757 (19%) yn ei gwblhau ar bapur.

Ton 2 (2015/16)

- 1.7 Yn 2015/16, ailadroddwyd y broses recriwtio yn yr ysgolion uwchradd, gydag 17 o ysgolion Llwybrau Llwyddiant yn cymryd rhan yn llawn (gweinyddodd 11 ohonynt yr arolwg i bob un o'r tri grŵp blwyddyn a dargedwyd y flwyddyn honno - Blynyddoedd 7, 8 a 10).³ Gweinyddwyd yr arolwg yn nhymor yr hydref unwaith eto, ac fe'i cwblhawyd gan 2,446 o ddisgyblion: 861 o ymatebwyr Blwyddyn 7 (roedd 63 wedi'u holrhain o Flwyddyn 6), 893 o ymatebwyr Blwyddyn 8 (roedd 402 wedi'u holrhain o Flwyddyn 7) a 692 o ymatebwyr Blwyddyn 10 (roedd 317 wedi'u holrhain o Flwyddyn 9). Cwblhaodd 1395 o'r ymatebwyr (57%) yr arolwg ar-lein, a chwblhaodd 1051 (43%) ohonynt yr arolwg ar bapur.

Adborth i ysgolion

- 1.8 Ar ôl cwblhau'r arolwg, anfonwyd gwybodaeth fanwl am ymatebion dienw a chrynswth (ar lefel cwestiwn ac eitem) at yr holl ysgolion a gymerodd ran yn y ddau arolwg, o'i gymharu â'r holl ddisgyblion eraill yn y grŵp blwyddyn perthnasol (Blwyddyn 6, Blwyddyn 7, Blwyddyn 8, Blwyddyn 9 neu Flwyddyn 10). Anfonwyd yr adroddiadau hyn (yn y Gymraeg a'r Saesneg) ym mis Medi 2015 a mis Medi 2016. Anfonwyd adroddiadau cymharol ar bob un o'r disgyblion a oedd wedi cymryd rhan at bob ysgol *oni bai* bod nifer y disgyblion

² Yn 2014/15, cafwyd 802 o ymatebwyr Blwyddyn 6 (ysgol gynradd), 1,526 o ymatebwyr Blwyddyn 7 a 1,590 o ymatebwyr Blwyddyn 9.

³ Roedd tair ysgol wedi cytuno i gymryd rhan, ond fe wnaethant anfon ymatebion sengl yn unig, nad oedd modd eu paru â rhifau adnabod disgyblion, felly ni chawsant eu cynnwys yn y cyfanswm terfynol.

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

a oedd wedi ymateb mewn unrhyw grŵp blwyddyn unigol mor fach fel bod modd adnabod unigolion; mewn achosion o'r fath, anfonwyd y data crynswth ar lefel poblogaeth ar gyfer y grŵp blwyddyn at yr ysgolion. Anfonwyd yr adroddiadau ar ddata crynswth ar lefel poblogaeth (ar gyfer pob carfan berthnasol) at yr ysgolion Llwybrau Llwyddiant na wnaethant gymryd rhan yn llawn yn yr arolwg (cyfanswm o 22).

- 1.9 Croesawyd yr adborth gan ysgolion yn 2015, fel yr amlygwyd mewn dau ymateb ysgrifenedig digymell gan Benaethiaid, a oedd yn dangos parodrwydd i gymryd rhan yn y dyfodol: *'Diolch yn fawr i chi am hyn. Mae'n adroddiad diddorol. Byddem yn hapus i gymryd rhan eto yn 2016'* (Pennaeth un o ysgolion Llwybrau Llwyddiant). Hefyd, nodwyd y ffaith fod y data yn ddefnyddiol at ddibenion mewnol: *'Diolch am ddadansoddiad mor fanwl – bydd y wybodaeth hon yn hollbwysig wrth i ni baratoi ar gyfer ein harolwg arfaethedig gan Estyn'*. Er bod cais am adborth wedi'i gynnwys yn arolwg 2016, ni chafwyd ymateb gan unrhyw Bennaeth.

Yr adroddiad hwn

- 1.10 Mae'r papur hwn yn cynnwys trosolwg o ymatebion crynswth disgyblion, gan ystyried (fel sy'n briodol) eu hymatebion ar sail grŵp blwyddyn a rhyw. Yn ogystal, aethom ati i archwilio'r ymatebion ar sail proffil ysgol ymddangosiadol, gan ddefnyddio'r tri grŵp gwahanol o ysgolion a gafodd eu creu drwy'r gwaith maes manwl mewn ysgolion. Roedd y tri grŵp o ysgolion *ond* yn dangos proffil yr ysgolion ar ddechrau rhaglen Her Ysgolion Cymru, ac roeddent yn seiliedig ar ystyriaeth o'u llwybrau perfformiad blaenorol (o'i gymharu â'i gilydd ac nid â holl ysgolion Cymru) a'r wybodaeth ansoddol a ddarparwyd gan ysgolion ac ymatebwyr eraill⁴. Yn gyffredinol, gellir disgrifio'r ysgolion fel a ganlyn:
- **Grŵp A:** Ysgolion lle'r oedd ansawdd y ddarpariaeth fel pe bai'n dirywio cyn iddynt gymryd rhan yn Her Ysgolion Cymru
 - **Grŵp B:** Ysgolion lle'r oedd ansawdd y ddarpariaeth yn ymddangos yn sefydlog, ond y credid bod angen ei gwella, cyn iddynt gymryd rhan yn Her Ysgolion Cymru.
 - **Grŵp C:** Ysgolion lle'r oedd ansawdd y ddarpariaeth wedi dechrau gwella, ond bod angen cymorth ychwanegol i wella'r broses, cyn iddynt gymryd rhan yn Her Ysgolion Cymru.
- 1.11 Rhaid pwysleisio bod ymchwil yr arolwg (ar gyfer y ddwy don) yn gychwynnol ei natur a bod angen trin y canfyddiadau yn ofalus o ystyried patrymau

⁴ Mae manylion llawn ar gael ym mhrif adroddiad y prosiect: <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-schools-challenge-cymru/?skip=1&lang=cy>

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

ymateb y grwpiau gwahanol o ysgolion. Mae niferoedd yr ysgolion a gymerodd ran yn ôl grŵp yn awgrymu nad oedd yr ymateb ar lefel ysgol yn gwbl ddiuedd, ac nad oedd y broses ddethol ar lefel disgybl yn ddiuedd wrth gynnal dwy don yr arolwg, fel y gwelir isod.

Proffil ymatebwyr i Don 1 (2014/15)

- 1.12 Yn 2015, roedd ychydig dros 11% (339) o'r disgyblion uwchradd yn dod o ysgolion a nodwyd mewn ysgolion Grŵp A (14% o'r garfan Blwyddyn 7 a 9% o'r garfan Blwyddyn 9) o'i gymharu â 37% (1,100 o ddisgyblion) mewn ysgolion Grŵp B a 52% mewn ysgolion Grŵp C (1,577 o ddisgyblion).⁵ Er bod y profion amrywiol a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad (gweler Atodiadau C ac E) wedi'u cynllunio i archwilio arwyddocâd ystadegol unrhyw wahaniaethau sy'n dod i'r amlwg rhwng y grwpiau o ysgolion, roedd disgyblion ysgolion Grŵp A a ymatebodd yn cynrychioli tair o'r wyth ysgol yn unig a ddisbarthwyd yn y modd hwn (hynny yw, ychydig dros draean). Roedd pump o'r ysgolion yn y categori hwn wedi penderfynu peidio â chynnal yr arolwg yn 2014/15, ac yn yr ysgolion a gymerodd ran, derbyniwyd ymatebion gan gyfartaledd o 68 disgybl ym mhob ysgol a phob carfan. Mae hyn yn awgrymu bod rhai dosbarthiadau a/neu rai disgyblion yn unig yn yr ysgolion hyn wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan. Mae'n debygol, felly, nad oedd yr ymatebwyr yn gwbl gynrychiadol o ysgolion Grŵp A, naill ai ar lefel ysgol neu lefel disgybl.
- 1.13 Roedd ymatebwyr o Grŵp B yn cynrychioli hanner yr ysgolion yn y grŵp (wyth allan o 16), ond roedd maint cymedr y carfannau a oedd yn ymateb yn debyg iawn (69 disgybl fesul ysgol a grŵp blwyddyn) i'r hyn a gafwyd mewn ysgolion Grŵp A, gan awgrymu nad oedd y broses ddethol yn gwbl ddiuedd yn yr ysgolion hyn. Fodd bynnag, roedd disgyblion o ysgolion Grŵp C yn cynnwys bron i dair rhan o bump o holl ysgolion y grŵp (wyth allan o 14), ac roedd carfan gymedr o 113 disgybl fesul ysgol a grŵp blwyddyn wedi ymateb. Yn 2014/15, roedd yr ymatebion o ysgolion Grŵp C yn fwy tebygol o gynrychioli'r carfannau o'i gymharu ag ymatebion disgyblion mewn ysgolion Grŵp A neu Grŵp B.

Proffil o'r ymatebwyr i Don 2 (2015/16)

- 1.14 Roedd cyfrannau tebyg o ysgolion ym mhob grŵp wedi cymryd rhan yn arolwg 2015/16. Cynhaliwyd yr arolwg gan hanner ysgolion Grŵp A (pedair o'r wyth ysgol), ychydig dros draean o ysgolion Grŵp B (chwech allan o 16) a hanner (saith allan o 14) ysgolion Grŵp C. Yn yr un modd ag yn 2014/15, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn dod o ysgolion Grŵp C (1443 o ddisgyblion a 52% o'r holl ymatebwyr). Ym mhob un o'r ysgolion hyn, cafwyd 85 o ymatebwyr fesul blwyddyn ysgol (Blynnyddoedd 7, 8 a 10) ar gyfartaledd.

⁵ Gweler Atodiad B

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

Roedd y cyfraddau ymateb yn is yn y grwpiau ysgolion eraill. Roedd dau ar hugain y cant o ymatebwyr (527 o ddisgyblion) yn dod o ysgolion Grŵp B, gyda 35 o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn ar gyfartaledd. Roedd 19% o ymatebwyr (475 o ddisgyblion) yn dod o ysgolion Grŵp A, gyda 47 o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn ar gyfartaledd. Fel sy'n wir am 2014/15, mae'n bosibl bod yr ymatebwyr o ysgolion Grŵp C yn fwy cynrychiadol o'u carfannau na disgyblion a ymatebodd ym mhob un o'r grwpiau ysgol eraill.

Effaith y dulliau ymateb

- 1.15 Gan mai astudiaeth beilot oedd hon, aethom ati i archwilio dull ymateb disgyblion hefyd. Y nod yn y cyswllt hwn oedd nodi a oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol mewn ymatebion disgyblion a gwblhaodd yr arolwg ar-lein ac ar bapur, ac a oeddent yn awgrymu unrhyw batrymau ymateb sylfaenol. Yn 2014/15, nodwyd nifer o wahaniaethau ymddangosiadol, gan gynnwys y ffaith fod disgyblion a oedd yn ymateb ar ffurf papur yn llai cadarnhaol wrth gyfeirio at agweddau penodol o'u bywyd ysgol (fel eu perthynas ag athrawon), a'u bod yn llai hyderus am eu hagweddau at ddysgu, na'r rhai a gwblhaodd yr arolygon ar-lein. Fodd bynnag, roedd y gwahaniaethau hyn yn cyfateb mwy i gyfnodau allweddol (defnyddiwyd yr arolygon papur gan fwy o ddisgyblion uwchradd na chynradd) a mathau o ysgolion (gyda chanfyddiadau'n cyfateb i Grŵp ysgol) na'r dull o gwblhau'r arolwg, ac ni chwblhawyd y dadansoddiad yn 2015/16 (gweler Atodiad A).

Cynnwys yr adroddiad

- 1.16 Yn is-adrannau canlynol yr adroddiad hwn, rydym yn archwilio, yn Adran 2, yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng agweddau pobl ifanc at yr ysgol (gan gynnwys eu safbwyntiau ar gyfleusterau, cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau y tu allan i'r ystafell ddosbarth a dulliau addysgeg eu hathrawon), lefel eu diddordeb yn yr ysgol a'u rhyngweithio â'u hathrawon. Mae Adran 3 yn cynnwys dadansoddiad o'u hagweddau at ddysgu, eu hymddygiad a'u paratodau ar gyfer y dyfodol. Yn y ddwy adran mae'r dadansoddiad yn cynnwys:
- data trawstoriadol (yn ystyried ymatebion disgyblion mewn grwpiau blwyddyn gwahanol)
 - data ar garfannau (yn cymharu data dros amser ar gyfer grwpiau blwyddyn gyfan, fel y gwahaniaeth rhwng carfan Blwyddyn 7 yn 2014/15 a charfan Blwyddyn 8 yn 2015/16, gan gynnwys cymharu carfan Blwyddyn 7 yn 2014/15 a charfan Blwyddyn 7 yn 2015/16)
 - data hydredol (olrhain disgyblion unigol a ymatebodd i arolygon yn 2014/15 a 2015/16).

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

Cynnwys yr Atodiadau

- 1.17 Mae gwybodaeth fanylach am ddiben yr arolwg a'r ysgolion a ymatebodd (gan gynnwys eu dull o gwblhau'r arolwg) i'w gweld yn Atodiad A. Mae proffil o ymatebwyr i'r ddau arolwg wedi'i gynnwys yn Atodiad B; mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gyfran yr ymatebwyr o ysgolion a gafodd eu categoreiddio yn ôl y grwpiau a nodwyd yn sgil canfyddiadau'r ymweliadau gwaith maes.
- 1.18 Mae gwybodaeth am y dull a fabwysiadwyd ar gyfer y dadansoddiad o'r data, gan gynnwys y sgôr ffactor, y newidynnau deilliadol (gan gynnwys y sgoriau FAS⁶) a dadansoddiadau o amrywiant wedi'u cynnwys yn Atodiadau C, D ac E. Mae'r set lawn o dablau amlder sylfaenol ar gyfer Blynyddoedd 6, 7 a 9 (Ton 1) yn 2014/15, ac ar gyfer Blynyddoedd 7, 8 a 10 (Ton 2) yn 2015/16 wedi'u cynnwys yn Atodiad F.

⁶ Defnyddir y Raddfa Cyfoeth Teuluoedd (FAS) fel un o fesurau'r Astudiaeth Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol sy'n mesur 'cyfoeth materol'. Mae'n brocsi rhyngwladol ar gyfer statws economaidd-gymdeithasol sy'n cael ei ddefnyddio yn lle galwedigaeth neu addysg rhieni. Cafodd chwech eitem eu cynnwys yn yr arolygon o ddisgyblion. At ddibenion y dadansoddiad hwn, cafodd ymatebion disgyblion i bob un o'r chwech eitem eu codio a'u crynhoi i greu sgôr cyfoeth FAS isel (0-7), canolig (8-11) neu uchel (12+).

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

2. Agweddau pobl ifanc at yr ysgol

- 2.1 Amcan pob arolwg oedd casglu gwybodaeth am brofiad pobl ifanc o'r ysgol a'u barn ar eu rhyngweithio â'u hathrawon. Gofynnwyd yr un cwestiynau i bob grŵp oedran, gan roi darlun o safbwyntiau newidiol wrth i ddisgyblion symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd a thrwy Gyfnod Allweddol 3.

Cyfleusterau, gweithgareddau ac addysgeg

- 2.2 Yn y ddwy don, nododd y rhan fwyaf o ddisgyblion fod amrywiaeth o gyfleusterau dysgu yn ymwneud â phynciau penodol, a chyfleusterau dysgu ehangach, ar gael yn yr ysgol (gan gynnwys, mewn rhai achosion, gofod dynodedig ar gyfer gwneud gwaith cartref). Roedd safbwyntiau disgyblion ar **ansawdd** y cyfleusterau hyn yn amrywio, a nodwyd yn gyson yn y ddau arolwg bod ystod y cyfarpar ar gyfer technoleg, chwaraeon, cyfrifiadureg a gwyddoniaeth yn well na'r cyfarpar a oedd ar gael ar gyfer astudio ieithoedd neu'r celfyddydau perfformio, er enghraifft.
- 2.3 Yn ôl adroddiadau ar **ba mor aml** y defnyddir cyfleusterau, nododd lefel gymharol uchel o ddisgyblion eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrifiadura a chwaraeon, ond dangosodd arolwg 2014/15 fod gwahaniaeth rhwng y cyfnodau (o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd). Er bod bron i bedair rhan o bump (87%) o ddisgyblion Blwyddyn 6 wedi nodi eu bod yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau chwaraeon bob wythnos, awgrymodd bron i chwarter o ddisgyblion Blwyddyn 7 a thraean o ddisgyblion Blwyddyn 9 eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol o'r fath lai nag unwaith yr wythnos. Roedd y darlun ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd yn debyg yn 2015/16: nododd chwarter disgyblion Blwyddyn 7, bron i draean o ddisgyblion Blwyddyn 8 a thros draean o ddisgyblion Blwyddyn 9 amllder mynediad cyfyngedig i weithgareddau corfforol yn eu hamserlenni (gweler y tablau yn Atodiad F).⁷
- 2.4 Roedd yn ymddangos bod llai o ddisgyblion hŷn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol (fel ymweld ag amgueddfa neu'r theatr) na disgyblion Blwyddyn 6. Er bod dros draean o ddisgyblion Blwyddyn 6 wedi nodi eu bod yn cymryd rhan mewn ymweliadau diwylliannol o'r fath o leiaf unwaith y tymor yn 2014/15, roedd yn ymddangos bod gweithgareddau o'r fath yn cael eu cynnal dim mwy nag unwaith y flwyddyn, neu hyd yn oed yn llai na hynny, ar gyfer disgyblion hŷn. Yn 2014/15, nododd dros hanner

⁷ Daeth y rhaglenni astudio a'r targed cyrhaeddiad diwygiedig ar gyfer addysg gorfforol yn ofynion cyfreithiol yn dilyn Gorchymyn gan Lywodraeth Cymru a ddaeth i rym ym mis Awst 2008 ar gyfer Blynyddoedd 3, 4 a 5 a Blynyddoedd 7 ac 8, ym mis Awst 2009 ar gyfer Blwyddyn 6, Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10 yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ym mis Awst 2010 ar gyfer Blwyddyn 11 yng Nghyfnod Allweddol 4.

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

ymatebwyr Blwyddyn 7 a Blwyddyn 9 nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw weithgareddau o'r fath yn eu hysgol. Nid oedd y sefyllfa hon wedi newid llawer erbyn 2015/16, ac roedd ymwybyddiaeth llawer o'r disgyblion o ymweliadau diwylliannol yn gyfyngedig, yn enwedig ymysg disgyblion hŷn; dywedodd dros hanner disgyblion Blwyddyn 7 a bron i ddwy ran o dair o ddisgyblion Blwyddyn 8 a Blwyddyn 10 nad oedd cyfleoedd o'r fath ar gael iddynt.

- 2.5 Fodd bynnag, roedd safbwyntiau disgyblion hŷn ar y gweithgareddau amrywiol sydd ar gael yn fwy cadarnhaol o lawer, ac yn arolwg 2014/15 roedd fel pe baent yn nodi'r defnydd o amrywiaeth ehangach o ddulliau addysgeg gwahanol yn yr ystafell ddosbarth.⁸ Yn yr arolwg cyntaf, roedd mwy o ddisgyblion Blwyddyn 9 yn nodi'r defnydd o *amrywiaeth* o strategaethau addysgu, gan gynnwys addysgu grwpiau bach a'r dosbarth cyfan a defnyddio dulliau chwarae rhan, cwestiynu a siaradwyr allanol, o'i gymharu â disgyblion iau ym Blwyddyn 7 neu Flwyddyn 6.
- 2.6 Fodd bynnag, erbyn 2015/16, newidiodd y darlun mewn ffordd gadarnhaol. Nododd disgyblion ym mhob grŵp (Blynnyddoedd 7, 8 a 10) fod amrywiaeth eang o strategaethau addysgeg rhyngweithiol ar waith, ac nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn y cyfleoedd a nodwyd rhwng grwpiau blwyddyn.⁹ Hefyd, amlygodd ymatebion disgyblion gynnydd sylweddol yn yr amrywiaeth o ddulliau sy'n cael eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth o'i gymharu ag ymatebion disgyblion ysgolion uwchradd i'r arolwg yn Nhon 1 (er enghraifft, erbyn 2015/16, ychydig o ddisgyblion a gredai ei bod yn well gan athrawon iddynt weithio ar eu pennau eu hunain).
- 2.7 Er nad oedd yn ymddangos bod unrhyw wahaniaeth rhwng safbwyntiau bechgyn a merched ar y cyfleusterau a oedd ar gael iddynt yn 2014/15, roedd rhai gwahaniaethau mawr yn 2015/16, gyda merched yn fwy cadarnhaol wrth drafod mynediad i gyfleusterau celf, drama ac astudio, a bechgyn yn cyfeirio mwy at y cyfleusterau gwyddoniaeth a TG. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wahaniaethau rhwng pa mor aml roedd disgyblion yn defnyddio'r cyfleusterau hyn neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cysylltiedig. Yn 2014/15, roedd merched mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn llawer mwy tebygol na bechgyn o nodi bod amrywiaeth ehangach o ddulliau addysgeg yn cael eu defnyddio yn yr ystafell ddosbarth, ond erbyn 2015/16 nid oedd y gwahaniaethau hyn rhwng y rhywiau yn berthnasol bellach. Gall hyn awgrymu bod bechgyn wedi dod yn fwy ymwybodol o'r dulliau gwahanol a oedd yn cael eu defnyddio gan eu hathrawon (sy'n nodwedd gadarnhaol), ond nid oes modd archwilio hyn ymhellach yn nata'r arolwg.

⁸ Nodwyd y gwahaniaethau hyn drwy ddefnyddio ANOVA, ac roeddent hefyd wedi amlygu newid mewn cyfranogiad cymedr mewn gweithgareddau rhwng grwpiau blwyddyn.

⁹ Roedd disgyblion iau yn fwy ymwybodol o ymwelwyr allanol

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

- 2.8 Yn 2014/15, roedd yn ymddangos bod disgyblion mewn ysgolion a oedd, yn ôl tystiolaeth gwaith maes, yn gweithredu o dan yr amgylchiadau mwyaf heriol (Grŵp A) yn llawer llai tebygol na'u cyd-ddisgyblion mewn ysgolion eraill o nodi eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol neu'n profi amrywiaeth eang o strategaethau addysgu gwahanol yn rheolaidd. Yn wir, roedd yr amrywiaeth o strategaethau addysgu gwahanol a oedd yn cael eu defnyddio bob dydd yn ôl disgyblion yn uwch o lawer mewn ysgolion a ddywedodd yn ystod ein hymweliadau fod y rhod yn dechrau troi, a'u bod yn dechrau mynd i'r afael â rhai o'r heriau a oedd yn eu hwynebu cyn lansio Her Ysgolion Cymru. Roedd llawer o'r gwahaniaethau hyn yn bodoli o hyd erbyn 2015/16, ond mae'n werth nodi bod disgyblion Blwyddyn 10 yn yr ysgolion a oedd yn wynebu'r heriau mwyaf yn ymddangos yn fwy ymwybodol o lawer na'u cyd-ddisgyblion mewn ysgolion eraill o'r amrywiaeth o ddulliau addysgeg. Fodd bynnag, nid oedd y nodwedd hon yn amlwg ymysg carfannau iau, sy'n awgrymu y gallai disgyblion Blwyddyn 10 yn yr ysgolion hyn fod wedi'u targedu'n benodol pan gyflwynwyd strategaethau addysgu newydd i'r ysgol, neu pan anogwyd staff i ddefnyddio amrywiaeth ehangach o ddulliau addysgu.

Diddordeb yn yr ysgol

- 2.9 Dywedodd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn 2014/15 eu bod yn hapus yn yr ysgol (87% o Flwyddyn 6, 73% o Flwyddyn 7 a 64% o Flwyddyn 9). Erbyn 2015/16, roedd cyfrannau'r carfannau a nododd eu bod yn hapus yn is (64% o Flwyddyn 7, 56% o Flwyddyn 8 a 46% o Flwyddyn 9), er nid oedd y gwahaniaeth yn sylweddol. Fodd bynnag, nid yw hapusrwydd yn fesur digonol o ddiddordeb neu ysgogiad disgyblion, sy'n seiliedig ar amrywiaeth gymhleth o faterion yn ymwneud â chanfyddiadau disgyblion ohonynt eu hunain, eu cyd-ddisgyblion, y cwricwlwm ac addysg, fel y nododd Smith *et al.* (2005). Er enghraifft, roedd cyfran y disgyblion mewn ysgolion uwchradd a oedd fel pe baent yn cael eu hysgogi gan farciau da yn lleihau gydag oedran yn y ddau arolwg (cafwyd gostyngiad yng nghanrannau'r rhai a oedd yn cytuno'n gryf eu bod yn hoffi cael marciau da - o 56% ym Mlwyddyn 7 i 40% ym Mlwyddyn 9 yn 2014/15 ac o 58% ym Mlwyddyn 7 i 40% ym Mlwyddyn 10 yn 2015/16). Mae hyn yn adlewyrchu llenyddiaeth ymchwil ehangach (e.e. Harlen a Deakin-Crick, 2002) sy'n awgrymu bod canlyniadau profion yn benodol yn llai o ysgogiad i ddisgyblion na datblygu diddordeb cynhenid mewn pynciau.
- 2.10 Roedd cyfran y disgyblion a oedd yn teimlo bod ganddynt diddordeb llawn yn yr ysgol yn lleihau'n sylweddol rhwng Blwyddyn 7 a Blwyddyn 9 yn 2014/15.¹⁰ Parhaodd y patrwm hwnnw yn 2015/16, gyda llawer llai o ddisgyblion Blwyddyn 10 yn nodi bod ganddynt diddordeb yn yr ysgol o'i gymharu â

¹⁰ Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng ymatebion disgyblion Blwyddyn 6 a 7.

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

disgyblion Blwyddyn 8 neu Flwyddyn 7. Fodd bynnag, nid yw'r darlun yn un syml lle mae disgyblion yn mynd yn llai brwdfrydig wrth fynd yn hŷn. Dywedodd disgyblion yn y garfan hydredol a gafodd eu holrhain o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 8 fod ganddynt lawer mwy o ddiddordeb nag oedd ganddynt yn 2014/15 (ond llai o ymreolaeth), sy'n debygol o adlewyrchu'r ffaith eu bod yn fwy hyderus neu'n fwy cyfarwydd ag amgylchedd yr ysgol uwchradd. Mewn cyferbyniad, roedd gan ddisgyblion a gafodd eu holrhain o Flwyddyn 9 i Flwyddyn 10 lai o ddiddordeb, sydd efallai'n adlewyrchu'r ffaith eu bod yn symud i amgylchedd â mwy o brofion lle mae llawer yn y fantol (nododd Harlen a Deakin-Crick fod hyn yn cael dylanwad negyddol ar ysgogiad) wrth gychwyo eu cyrsiau TGAU.

- 2.11 Nodwyd rhai gwahaniaethau rhwng ysgolion yn 2014/15, pan oedd lefelau diddordeb yn yr ysgol yn is o lawer ymysg disgyblion mewn ysgolion a oedd, yn ôl y gwaith maes ansoddol, yn dirywio cyn cyflwyno Her Ysgolion Cymru (Grŵp A). Roedd y gwahaniaeth hwn yn amlwg o'i gymharu â disgyblion mewn ysgolion a oedd yn ymddangos yn sefydlog (er nad oedd unrhyw arwyddion clir eu bod yn gwella – Grŵp B) a disgyblion mewn ysgolion a oedd fel pe baent wedi gwneud rhywfaint o gynnydd cyn 2014/15 (Grŵp C). Erbyn 2015/16, nid oedd y lefelau diddordeb a nodwyd mewn ysgolion Grŵp A yn wahanol yn ystadegol i'r hyn a nodwyd yn yr ysgolion eraill. Fodd bynnag, roedd gan ddisgyblion mewn ysgolion Grŵp C yn 2015/16 agwedd fwy cadarnhaol o lawer na disgyblion mewn ysgolion Grŵp B; yn 2014/15, nid oedd gwahaniaeth mawr rhwng safbwyntiau disgyblion yn yr ysgolion hyn.

Rhyngweithio ag athrawon

- 2.12 Roedd barn disgyblion ynglŷn ag i ba raddau roeddent yn teimlo bod eu hathrawon yn gefnogol yn amrywio yn ôl oedran a rhyw. Yn y ddau arolwg (Ton 1 a Thon 2), roedd agwedd y carfannau iau yn fwy cadarnhaol o lawer nag agweddau disgyblion hŷn o safbwynt i ba raddau roeddent yn teimlo bod eu hathrawon yn gwrandao arnynt, yn eu hannog ac yn eu trin gyda pharch. Yn yr un modd, roeddent yn fwy tebygol na'u cyd-ddisgyblion hŷn o nodi bod ganddynt ddiddordeb yn eu gwaith a bod yr ysgol yn werth chweil, ac mae'r canfyddiad hwn yn adlewyrchu llawer o'r gwaith ymchwil blaenorol yn ymwneud â gostyngiad mewn lefelau diddordeb disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 (Morris a Pullen, 2007).¹¹ Hefyd, roedd y canfyddiadau hyn yn amlwg ymysg disgyblion yn y carfannau hydredol; roedd disgyblion unigol a gafodd eu holrhain o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 8 ac o Flwyddyn 9 i Flwyddyn 10 yn tueddu i fod yn llai cadarnhaol ynglŷn â lefelau cymorth a lefelau diddordeb na phan oeddent yn iau.

¹¹ Gweler, er enghraifft, Morris, M. a Pullen, C. (2007). *Disengagement and Re-engagement of Young People in Learning at Key Stage 3*. Totnes: Research in Practice

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

- 2.13 Yn 2014/15 a 2015/16, roedd gan fechgyn agwedd fwy cadarnhaol o lawer na merched tuag at i ba raddau roeddent yn credu bod eu hathrawon yn gefnogol, ond roeddent yn *llai* tebygol na merched o feddwl bod gwaith ysgol yn ddiddorol neu fod yr ysgol yn werth chweil. Felly, nid oedd agweddau cadarnhaol at eu hathrawon yn arwain o reidrwydd at agweddau cadarnhaol at ddysgu (ond, fel y nodwyd yn gynharach, roedd yn ymddangos bod bechgyn yn fwy ymwybodol o ddulliau addysgeg ehangach erbyn 2015/16).¹²
- 2.14 Gellir dysgu mwy am hyn drwy ystyried sut mae'r sefyllfa wedi newid i ddisgyblion mewn ysgolion Llwybrau Llwyddiant. Yn 2014/15, roedd disgyblion yn yr ysgolion mwyaf heriol (Grŵp A) yn llawer mwy tebygol o werthfawrogi'r ysgol na disgyblion mewn ysgolion Grŵp B. Hefyd, roeddent yn fwy tebygol o feddwl bod eu hathrawon yn gwranddo arnynt, yn eu hannog ac yn eu trin gyda pharch na disgyblion mewn ysgolion a oedd wedi dangos arwyddion o wella gynt (Grŵp C). Roedd maint effaith (r) y gwahaniaeth hwn yn fach (0.1), ond mae'n werth ei ystyried ymhellach. Nid oedd unrhyw wahaniaeth (yn ôl Grŵp ysgol) rhwng lefel diddordeb cyffredinol disgyblion yn eu gwaith, neu rhwng yr *amrywiaeth* o gyfleoedd a oedd ar gael ar gyfer adborth neu asesu eu cynnydd.
- 2.15 Felly, yn 2014/15 mae'n bosibl bod disgyblion mewn ysgolion Grŵp C yn fwy ymwybodol o lefel uwch o her bersonol na'u cyd-ddisgyblion mewn ysgolion eraill (a'u bod yn llai cyfforddus oherwydd hynny). Heb os, roeddent yn fwy tebygol o lawer na'u cyd-ddisgyblion mewn ysgolion Grŵp A o feddwl bod eu hysgolion yn eu paratoi'n dda ar gyfer y dyfodol, er eu bod yn llai tebygol o feddwl bod yr ysgol yn werth chweil.
- 2.16 Erbyn 2015/16, roedd y sefyllfa yn wahanol am sawl rheswm. Roedd yn ymddangos bod disgyblion mewn ysgolion Grŵp A bellach yn llai tebygol na'u cyd-ddisgyblion mewn ysgolion eraill o feddwl bod yr ysgol yn werth chweil, ond serch hynny roeddent yn parhau i fod yn fwy tebygol o deimlo bod eu hathrawon yn gefnogol na disgyblion mewn ysgolion Grŵp C. Hefyd, roedd mwy ohonynt yn nodi bod rhagor o gyfleoedd ar gael i asesu eu cynnydd na disgyblion mewn ysgolion eraill. Roedd y canfyddiadau hyn yn amlwg ar lefel poblogaeth (pawb a ymatebodd i'r arolwg) ac ymysg disgyblion a oedd wedi'u holrhain o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 8 (ond nid ymysg y rhai a oedd wedi'u holrhain o Flwyddyn 9 i Flwyddyn 10). Er bod safbwyntiau grwpiau blwyddyn ynglŷn â sut mae ysgolion yn eu paratoi ar gyfer y dyfodol yn wahanol iawn (roedd disgyblion hŷn yn fwy cadarnhaol na disgyblion iau), ni nodwyd unrhyw wahaniaeth o'r fath rhwng Grwpiau ysgol.

¹² Er bod safbwyntiau disgyblion unigol a fynegwyd yn 2014/15 a 2015/16 yn llai cadarnhaol o bosibl wrth iddynt fynd yn hŷn, ni wnaethant newid ar sail rhyw.

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

- 2.17 Mae'r canlyniadau ychydig yn wahanol, gan awgrymu y gallai ffactorau ar wahân i fentrau mewn ysgolion fod wedi effeithio ar agweddau, ac efallai ar ymddygiad. Roedd agwedd disgyblion mewn ysgolion Grŵp A at gymorth yr ysgol i'w paratoi ar gyfer y dyfodol, y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth, yn gadarnhaol yn gyffredinol, ac roedd gan y disgyblion hyn ddiddordeb yng ngweithgareddau'r ysgol. Ond erbyn 2015/16, roeddent yn credu bod gan y broses addysg lai o werth na'u cyd-ddisgyblion mewn ysgolion eraill. Mae'n bosibl bod hyn yn adlewyrchu eu safbwyntiau ar ba fath o ddyfodol a oedd ar gael iddynt. Fodd bynnag, dylid nodi mai'r unig wahaniaethau arwyddocaol rhwng cynlluniau disgyblion ar gyfer y dyfodol oedd y gwahaniaethau rhwng cynlluniau pobl ifanc â lefel isel o amddifadedd (yn unol â mesur sgôr Graddfa Cyfoeth Teuluoedd¹³) a'r rhai â lefel amddifadedd ganolig neu uchel. Roedd pobl ifanc ym Mlwyddyn 10 â lefelau is o amddifadedd yn llawer mwy tebygol o ystyried symud ymlaen i addysg bellach a/neu addysg uwch na'u cyd-ddisgyblion.

¹³ Gweler Atodiad D.

3. Agweddau pobl ifanc at ddysgu ac ymddygiad

- 3.1 Nodwyd bod canfyddiad pobl ifanc ohonynt eu hunain a'u perthynas â'r ysgol yn cael effaith arwyddocaol ar eu cyrhaeddiad a'u cynnydd drwy'r byd addysg (gweler, er enghraifft, Sebba *et al.*, 2008). Archwiliodd y dadansoddiad o'r arolygon sawl agwedd wahanol ar hyn, gan gynnwys canfyddiadau disgyblion o'u gallu eu hunain i ddysgu, eu perthynas â'u hathrawon, i ba raddau roeddent yn teimlo bod eu hathrawon a'u rhieni yn eu cefnogi, a'u hymddygiad eu hunain.

Disgyblion fel dysgwyr

- 3.2 Nid oedd unrhyw wahaniaethau yn y lefel o ymreolaeth a fynegwyd gan ddisgyblion ym mhob grŵp oedran. Roedd disgyblion Blynnyddoedd 6, 7 a 9 yn 2014/15 a disgyblion Blynnyddoedd 7, 8 a 10 yn 2015/16 yr un mor debygol o feddwl bod ganddynt sgiliau datrys problemau da, y gallent weithio'n annibynnol a'u bod yn defnyddio strategaethau amrywiol i ganfod gwybodaeth neu osod targedau iddynt eu hunain. Fodd bynnag, er nad oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng safbwyntiau disgyblion uwchradd ym mhob un o'r tri Grŵp ysgol a nodwyd yn 2014/15, roedd y sefyllfa wedi newid erbyn 2015/16. Erbyn hynny, roedd disgyblion mewn ysgolion Grŵp C yn teimlo lefelau uwch o ymreolaeth bersonol a hyder yn eu dulliau o ddysgu'n annibynnol na'u cyd-ddisgyblion mewn ysgolion eraill. Fel y gwelsom, roedd gan ddisgyblion yn yr ysgolion hyn fwy o ddiddordeb yn yr ysgol na disgyblion mewn ysgolion a gafodd eu hystyried (cyn 2014) yn ysgolion sefydlog nad oeddent yn gwneud llawer o gynnydd.
- 3.3 Mae gwaith ymchwil blaenorol wedi awgrymu bod ysgogiad i astudio yn gysylltiedig ag i ba raddau y mae athrawon yn hyrwyddo strategaethau cydweithredol a rhyngweithiol (Smith *et al.* 2005), ac i ba raddau y mae dulliau addysgu sy'n annog disgyblion i ddewis strategaethau priodol yn helpu i ddatblygu sgiliau dysgu disgyblion (gweler, er enghraifft, Higgins *et al.* 2007). Mae'r canfyddiadau presennol yn awgrymu y gall athrawon mewn ysgolion Grŵp C fod yn hyrwyddo amrywiaeth eang o strategaethau dysgu, ond bod angen gwneud mwy o bosibl i sicrhau bod disgyblion yn teimlo eu bod yn derbyn cymorth ac anogaeth. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn 2014/15, nid yw cymorth yn unig yn ddigon i ennyn diddordeb disgyblion. Er enghraifft, yn 2014/15, roedd lefelau diddordeb disgyblion yn yr ysgolion mwyaf heriol yn is na lefelau diddordeb eu cyd-ddisgyblion mewn ysgolion eraill, er gwaethaf eu hagwedd gadarnhaol atyn nhw eu hunain fel dysgwyr, ac er gwaetha'r ffaith eu bod yn fwy tebygol na disgyblion ysgolion eraill o gredu bod eu hathrawon yn gefnogol ac yn effeithiol.

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

- 3.4 Roedd y graddau yr oedd disgyblion yn cydnabod cymorth gan rieni i wneud eu gwaith ysgol yn amrywio'n bennaf ar sail lefelau amddifadedd asesedig (sgoriau Graddfa Cyfoeth Teuluoedd). Ym mhob grŵp blwyddyn, nododd mwy o ddisgyblion llai difreintiedig fod eu rhieni'n mynychu nosweithiau rhieni ac yn cefnogi eu haddysg. Hefyd, gwelwyd gwahaniaethau ar sail Grŵp ysgol. Roedd disgyblion Blwyddyn 7 (yn 2014/15 neu 2015/16) neu Flwyddyn 8 (yn 2015/16) mewn ysgolion Grŵp A yn llai tebygol na'u cyd-ddisgyblion mewn ysgolion eraill o ddweud bod eu rhieni'n mynychu digwyddiadau ysgol. Er nad oedd y gwahaniaethau'n arwyddocaol yn ystadegol ymysg disgyblion hŷn, mae'r canfyddiad hwn yn amlygu un o'r problemau ar gyfer ysgolion sy'n wynebu'r her fwyaf mewn ardaloedd difreintiedig iawn; yr anhawster o ymgysylltu â rhieni sydd efallai wedi cael profiadau negyddol o fynychu'r ysgol eu hunain.

Ymddygiad disgyblion

- 3.5 Er bod nifer y disgyblion a nododd eu bod yn triwanta o'r ysgol yn gymharol isel yn gyffredinol, roedd cynnydd arwyddocaol ac amlwg mewn lefelau triwanta rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 9 yn 2014/15, a chynnydd tebyg rhwng Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10 yn 2015/16. Fodd bynnag, nid oedd y duedd hon yn amlwg ymysg disgyblion mewn carfannau hydredol; nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol ymysg disgyblion a gafodd eu holrhain o Flwyddyn 7 ymlaen, tra bod lefelau triwanta wedi *lleihau* ymysg disgyblion a gafodd eu holrhain o Flwyddyn 9 i Flwyddyn 10.
- 3.6 Yn 2014/15, dywedodd dros bedair rhan o bump o ddisgyblion Blwyddyn 6 (85%) nad oeddent erioed wedi triwanta. Ymysg disgyblion hŷn y flwyddyn honno, roedd y gyfran a ddywedodd nad oeddent erioed wedi triwanta yn is ym Blwyddyn 7 (78%) a Blwyddyn 9 (72%). Fodd bynnag, ar draws y cyfnodau a rhwng y grwpiau blwyddyn yn Nhon 1, roedd cynnydd cyffredinol mewn triwantiaeth achlysurol (ambell i wers neu ddiwrnod). Hefyd, roedd cynnydd ymddangosiadol mewn triwantiaeth fwy systematig (ymysg cyfran fechan iawn o bob carfan), gyda thri o bob 100 disgybl ym Blwyddyn 7 a phump o bob 100 disgybl ym Blwyddyn 9 yn colli diwrnodau neu wersi penodol yn rheolaidd. Mae'n bosibl y bydd yna oblygiadau ar gyfer deilliannau hirdymor disgyblion sydd â lefelau uwch o driwantiaeth bersonol. Er enghraifft, nodir bod presenoldeb gwael yn un o'r prif ffactorau sy'n arwain at gyrrhaeddiad isel (gweler Morris a Rutt, 2005).
- 3.7 Erbyn 2015/16, roedd cyfran pob grŵp blwyddyn a nododd nad oeddent erioed wedi triwanta ychydig yn is (ambell i bwynt canran) nag yn y flwyddyn flaenorol, tra bod y broses o adrodd triwantiaeth systematig ychydig yn uwch. Fodd bynnag, nid oedd y gwahaniaethau hyn yn arwyddocaol, ac roedd yn

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

ymdangos bod y carfannau a gafodd eu holrhain yn llai tebygol o lawer o fod wedi nodi achosion o driwantiaeth yn 2015/16 nag yn 2014/15.

- 3.8 Roedd disgyblion ym mhob un o'r tair carfan oedran yn tueddu i nodi lefelau uwch o driwantiaeth ymysg eu ffrindiau nag ar eu cyfer nhw eu hunain. Yn 2014/15, roedd 27% o ddisgyblion Blwyddyn 6, 42% o ddisgyblion Blwyddyn 7 a 45% o ddisgyblion Blwyddyn 9 wedi nodi rhai achosion o driwantiaeth ymysg eu ffrindiau. Yn 2015/16, roedd lefelau triwantiaeth a nodwyd ymysg ffrindiau disgyblion Blwyddyn 7 yn is (34%), ond roedd yn uwch ymysg disgyblion Blwyddyn 8 (45%) a disgyblion Blwyddyn 10 (52%). Yn y ddwy don, dywedodd tua un o bob 10 ym mhob grŵp oedran nad oeddent yn gwybod am ymddygiad eu ffrindiau yn y cyswllt hwn.
- 3.9 Roedd bechgyn yn fwy tebygol na merched ym mhob grŵp oedran ac yn y ddau arolwg o nodi eu bod nhw (a'u ffrindiau) wedi bod yn absennol o'r ysgol ar rai adegau. Roedd y darlun braidd yn wahanol pan gafodd disgyblion Blwyddyn 6 eu cynnwys yn y dadansoddiad, gan fod merched yn fwy tebygol na bechgyn o gyfaddef eu bod wedi triwanta. Ni ellir canfod y rhesymau am y gwahaniaethau hyn drwy'r arolwg. Yn wir, nid oedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o ddweud eu bod yn anhapus yn yr ysgol, ac roedd bechgyn a merched yr un mor debygol o nodi eu bod yn hoffi mynd i'r ysgol a'u bod yn teimlo'n gartrefol yno. Fodd bynnag, nodwyd bod bechgyn ym Mlynnyddoedd 7, 8, 9 a 10 yn fwy tebygol na merched yn y grwpiau blwyddyn hynny o awgrymu eu bod yn hapus ac yn boblogaidd ymysg eu cyd-ddisgyblion, eu bod yn teimlo bod eu cyd-ddisgyblion yn eu cynnwys ac nad oeddent yn cael eu bwlio. Nid oedd y gwahaniaeth hwn rhwng y rhywiau yn amlwg pan gafodd disgyblion Blwyddyn 6 eu cynnwys yn y data, gan awgrymu bod rhai merched wedi'i chael yn anos na'r bechgyn i addasu i'w grwpiau cyfoedion newydd yn yr ysgol uwchradd, a bod yr anhawster hwn wedi parhau o bosibl yn y grwpiau blwyddyn dilynol.
- 3.10 Ym mhob grŵp blwyddyn, roedd merched hefyd yn fwy tebygol o gydnabod eu bod nhw neu eu ffrindiau wedi cyrraedd yr ysgol neu eu gwersi yn hwyr. Nododd pedwar o bob 100 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 7 a naw o bob 100 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 10 eu bod yn hwyr (bron bob dydd) ar gyfer yr ysgol a gwersi.
- 3.11 Ni ellir canfod y rhesymau am y gwahaniaethau hyn drwy'r arolwg. Yn wir, nid oedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o ddweud eu bod yn anhapus yn yr ysgol, ac roedd bechgyn a merched yr un mor debygol o nodi eu bod yn hoffi mynd i'r ysgol a'u bod yn teimlo'n gartrefol yno. Fodd bynnag, nodwyd bod bechgyn ym Mlynnyddoedd 7, 8, 9 a 10 yn fwy tebygol na merched yn y grwpiau blwyddyn hynny o awgrymu eu bod yn hapus ac yn boblogaidd ymysg eu cyd-ddisgyblion, eu bod yn teimlo bod eu cyd-ddisgyblion yn eu

Chi a'ch Arolwg Ysgol:

Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

cynnwys ac nad oeddent yn cael eu bwlio. Nid oedd y gwahaniaeth hwn rhwng y rhywiau yn amlwg pan gafodd disgyblion Blwyddyn 6 eu cynnwys yn y data, gan awgrymu bod rhai merched wedi'i chael yn anos na'r bechgyn i addasu i'w grwpiau cyfoedion newydd yn yr ysgol uwchradd, a bod yr anhawster hwn wedi parhau o bosibl yn y grwpiau blwyddyn dilynol.

- 3.12 Nododd disgyblion mewn ysgolion sy'n wynebu'r amgylchiadau mwyaf heriol (Grŵp A) lefelau uwch o driwantiath bersonol a chyrraedd yr ysgol yn hwyr na'u cyd-ddisgyblion mewn ysgolion eraill yn 2014/15, ond nid oedd llawer o'r gwahaniaethau hyn (yng nghyswllt triwantiath yn benodol) i'w gweld yn 2015/16, ac roedd y cyfrannau cyffredinol o ddisgyblion a gyfeiriodd at driwantiath a bod yn hwyr wedi aros yn ddigyfnewid. Yn y ddau arolwg, roedd y disgyblion hyn hefyd yn tueddu i nodi lefelau uwch o driwantiath a bod yn hwyr ymysg eu ffrindiau yn hytrach nac ar eu cyfer nhw eu hunain.

Atodiad A: Diben yr arolygon

A.1 Sefydlwyd yr arolwg hwn (Chi a'ch Ysgol) fel astudiaeth beilot gyda'r nodau canlynol:

- Treialu dull o gynnal arolwg Llais y Disgybl. Er mwyn mynd i'r afael â'r nod hwn roeddem yn teimlo hefyd bod angen arbennig i fynd i'r afael â chwestiynau'n ymwneud â'r canlynol:
 - a fyddai ysgolion yn cyfranogi mewn arolwg carfan gyfan o ddisgyblion ai peidio
 - y dull (ar-lein neu bapur) y byddai'n well gan ysgolion ei ddefnyddio i gwblhau'r arolwg
 - i ba raddau y cafodd cyfrwng y cwblhau effaith ar ymatebion disgyblion.
- Cael barn disgyblion ar ystod o agweddau o'u profiad ysgol (yn cynnwys barn am agweddau o Her Ysgolion Cymru sy'n effeithio arnynt):
 - beth, os o gwbl, y gallai Llywodraeth Cymru ei ddysgu o arolwg o'r fath ynglŷn â chynnydd ac effaith Llwybrau Llwyddiant fel rhan o Her Ysgolion Cymru?
- Cael darlun mwy systematig o sut y gellir ymgorffori barn disgyblion i lywodraethu ysgol a'u defnyddio i gefnogi cynlluniau gwella ysgol.

A.2 Mae'r is-adrannau canlynol yn edrych yn fanylach ar yr ymatebion yn ymwneud â recriwtio a chyfranogiad ysgolion, a'r cyfrwng a ddewiswyd i gwblhau'r arolygon. Mae'r atodiadau eraill yn darparu trosolwg o safbwyntiau disgyblion (wedi'u cyfuno ar sail grŵp Blwyddyn) ac yn nodi sut yr aethom ati i ddadansoddi'r wybodaeth. Gwelir canfyddiadau'r wybodaeth yng nghorff yr adroddiad.

Cyfranogiad ysgolion

A.3 Yn 2014/15, gwahoddwyd pob un o'r 39 o ysgolion Llwybrau Llwyddiant a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo i ofyn i'w disgyblion yn y carfannau perthnasol gymryd rhan yn yr arolwg, gan gwblhau'r holiadur ar-lein neu ar ffurf papur (yn unol â dewis yr ysgol) drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Cwblhawyd yr arolwg gan ddisgyblion yn ystod tymor yr haf 2014/15 (ym mis Mehefin a Gorffennaf). Gan fod yr arolwg yn cael ei anfon i ysgolion a oedd wedi'u targedu yn unig, defnyddiwyd dull sawl cam o recriwtio ysgolion:

Chi a'ch Arolwg Ysgol:

Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

- E-bost cychwynnol (yn Gymraeg a Saesneg) i bob ysgol yn y rhaglen (39 ysgol uwchradd a 253 ysgol gynradd) yn eu gwahodd i gymryd rhan yn yr ymchwil.
- Llythyr pdf (yn Gymraeg a Saesneg) i ysgolion ei anfon i rieni, yn eu hysbysu am yr ymchwil, ac yn rhoi cyfle i optio allan i'r rhieni hynny nad oeddent am i'w plentyn gymryd rhan yn yr arolwg.
- Proses recriwtio CATI gydag ysgolion, gan ddefnyddio siaradwyr Cymraeg a Saesneg (fel sy'n briodol).
- Casglu manylion gan ysgolion a oedd yn cytuno i gyfranogi er mwyn rhoi gwybodaeth am y canlynol:
 - nifer y dosbarthiadau a'r disgyblion ym mhob carfan (pwysig ar gyfer argraffu'r arolygon papur)
 - manylion cyswllt a ffafir ar gyfer yr ysgol (yn cynnwys cyfeiriadau ebost) fel y gellid anfon adborth wedi'i ddiennwi a'i ddadelfennu am yr arolwg yn uniongyrchol i'r ysgol
 - amseroedd/dyddiadau a ffafir ar gyfer anfon dolenni i'r arolygon arlein (neu ar gyfer postio'r arolygon papur).
- Casglu manylion gan ysgolion sydd ddim yn cytuno i gymryd rhan er mwyn deall eu rhesymau dros beidio cyfranogi.

A.4 Er gwaethaf amseriad yr arolygon yn hwyr yn y flwyddyn, hwylusodd 57 o ysgolion (gan gynnwys 19 o'r 39 o ysgolion Llwybr Llwyddiant a 28 o ysgolion cynradd) gyfranogiad eu disgyblion yn yr arolwg.

A.5 Roedd y rhesymau a roddwyd dros beidio cyfranogi yn ymwneud yn bennaf â'r canlynol:

- **amseriad** yr arolwg, gyda mwyafrif yr ysgolion na gyfranogodd yn dweud bod gwersi eisoes wedi'u cynllunio ac (mewn ysgolion cynradd) bod staff yn rhy brysur yn paratoi, goruchwylio, marcio neu'n cymedroli arholiadau ysgol a/neu allanol
- canfyddiad o **berthnasedd** yr arolwg i'w hysgol; roedd ysgolion cynradd yn benodol yn teimlo, o gofio'r cysylltiad gyda Her Ysgolion Cymru, nad oedd yr arolwg yn berthnasol iddynt hwy
- y **pwnc**, gyda rhai ysgolion yn dweud na fyddai gan eu disgyblion ddiddordeb mewn rhoi eu barn am yr ysgol.

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

- A.6 Cynhaliwyd proses debyg yn 2015/16, ond roedd arolwg Ton 2 wedi'i fwriadu ar gyfer y 39 o ysgolion Llwybrau Llwyddiant yn unig. Cynhaliwyd yr arolwg ar yr un adeg o'r flwyddyn ysgol yn 2015/16. Derbyniwyd ymatebion i'r arolwg gan 17 o'r 39 o ysgolion Llwybrau Llwyddiant a chyfanswm o 2,445 o ddisgyblion Blwyddyn 7 (861), Blwyddyn 8 (892) a Blwyddyn 10 (692).

Dull cwblhau'r arolygon

- A.7 Dywedodd y rhan fwyaf o ysgolion eu bod yn hapus i hwyluso trefn o gwblhau'r arolygon ar-lein, ond eu bod yn gwerthfawrogi cael cynnig arolwg papur. Roedd yn well gan rai ysgolion ddefnyddio arolygon papur. Nid oedd dewisiadau'n ymwneud â materion TG bob amser (fel gwasanaeth band eang araf/dim gwasanaeth band eang neu ddiffyg pwynt mynediad i'r dosbarth cyfan gwblhau'r arolwg), ac weithiau roeddent yn gysylltiedig â materion ymarferol (fel cwblhau'r arolwg mewn gwersi neu gyfnodau grŵp tiwtoriaid pan nad oedd mor hawdd defnyddio cyfrifiaduron).
- A.8 Derbyniwyd ymatebion i Don 1 yr arolwg gan 3,918 o ddisgyblion (861 o ymatebwyr Blwyddyn 7, 1,526 o ymatebwyr Blwyddyn 7 a 1,590 o ymatebwyr Blwyddyn 9). Cwblhawyd yr arolwg ar-lein gan dros bedair rhan o bump o'r ymatebwyr (3,161), ac fe'i cwblhawyd ar bapur gan 757 (19%) ohonynt.
- A.9 Derbyniwyd ymatebion i Don 2 yr arolwg gan 2,445 o ddisgyblion (861 o ymatebwyr Blwyddyn 6, 892 o ymatebwyr Blwyddyn 8 a 692 o ymatebwyr Blwyddyn 10). Cwblhawyd yr arolwg ar-lein gan dros hanner yr ymatebwyr (1394 neu 57%), ac fe'i cwblhawyd ar bapur gan 1051 (43%) ohonynt.

Effaith dull cwblhau'r arolygon

- A.10 Yn ystod ein dadansoddiad o'r arolwg Ton 1, aethom ati (os oedd modd) i ystyried a oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng ymatebion disgyblion a gwblhaodd yr arolwg ar-lein a'r rhai a'i cwblhaodd ar bapur. Roedd yn *ydddangos* bod disgyblion a ddefnyddiodd y dull papur yn llai cadarnhaol ynglŷn ag elfennau penodol o'u bywyd ysgol (fel eu perthynas ag athrawon) a bod eu hagwedd at ddysgu yn llai hyderus na'r rhai a gwblhaodd yr arolygon ar-lein.
- A.11 Fodd bynnag, o ystyried mai sampl hunan dewisol o ysgolion a ddefnyddiwyd, ac nad ymarfer arbrolfol (neu hyd yn oed lled arbrolfol) oedd hwn er mwyn archwilio effaith dulliau gwahanol o gwblhau arolygon, dylem fod yn ofalus iawn cyn dod i unrhyw gasgliadau. Mae'n bosibl bod y canlyniadau'n seiliedig i'r un graddau ar y math o ysgolion a ddewisodd ddefnyddio arolygon papur â'r dull o'u cwblhau. Roedd tair o'r pum ysgol a ddewisodd ddefnyddio'r arolwg papur yn ysgolion uwchradd. Roedd llai nag un rhan o bump (12%) o'r disgyblion a gwblhaodd arolwg papur yn ddisgyblion Blwyddyn 6.

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

- A.12 O ystyried natur amhendant y canfyddiadau yn ymwneud â'r dull o gwblhau Ton 1, ni chwblhawyd unrhyw ddadansoddiad tebyg ar gyfer Ton 2.

Cyfraddau Ymateb Mewnol

- A.13 Mae'r cyfraddau ymateb i'r arolygon yn awgrymu bod eu hyd yn briodol ar gyfer y carfannau oedran perthnasol. Roedd y cyfraddau diffyg ymateb yn 2014/15 i'r cwestiynau'n ymwneud ag agweddau yn amrywio o sero i ddau y cant (Blwyddyn 6), o sero i dri y cant (Blwyddyn 7) ac o sero i bedwar y cant (Blwyddyn 9). Roedd y ffigurau'n debyg yn 2015/16, gyda'r cyfraddau diffyg ymateb yn amrywio o un i dri y cant ar gyfer Blwyddyn 7, Blwyddyn 8 a Blwyddyn 10. Yn y naill don a'r llall, roedd y cyfraddau diffyg ymateb i gwestiynau'n ymwneud ag agweddau yn uwch ar ddiwedd yr arolwg nag yn y dechrau (hyd at dri y cant), sy'n awgrymu mai blinder gyda'r arolwg oedd y rheswm posibl am hyn. Roedd y cyfraddau diffyg ymateb uchaf yn ymwneud â manylion ffeithiol – lefel cymwysterau rhieni a lefel cymwysterau tadau yn benodol.

Atodiad B: Proffil y disgyblion a gymerodd ran

A.14 Er mwyn darparu cyd-destun ar gyfer dehongli ymatebion pobl ifanc i'r arolygon, mae'r atodiad hwn yn cynnwys proffil o'r disgyblion a ymatebodd. Mae'n cynnwys manylion:

- nodweddion y disgyblion a ymatebodd, gan gynnwys rhyw, ethnigrwydd a sgoriau Graddfa Cyfoeth Teuluoedd. Cafodd y sgoriau Graddfa Cyfoeth Teuluoedd eu dosbarthu'n gyfoeth isel (0-7), canolig (8-11) neu uchel (12+).
- cyfran y disgyblion Llwybrau Llwyddiant (Blynyddoedd 7 a 9) yn y Grwpiau ysgolion gwahanol a nodwyd drwy'r dadansoddiad ansoddol.

Tabl B-1: Ton 1: Blynyddoedd 6, 7 a 9 (nodweddion a nodwyd gan ymatebwyr)

Nodwedd	Ymatebwyr			Canran		
	BI 6	BI 7	BI 9	BI 6	BI 7	BI 9
Rhyw						
Bachgen	427	815	819	53	53	52
Merch	372	702	705	46	46	44
Dim data	3	9	66	0.3	1	4
Ethnigrwydd						
Gwyn	608	1195	1366	75.8	78	86
Cymysg/grŵp lluosog	54	60	36	6.7	4	2
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	18	40	34	2.2	3	2
Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig	25	13	25	3.1	1	2
Grŵp ethnig arall	13	15	15	1.6	1	1
Ddim am ddweud	76	139	77	9.5	9	5
Dim data	8	64	37	1.0	4	2

Ffynhonnell: SQW: Arolwg Chi a'ch Ysgol 2014/15 (Cymru)

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

Tabl B-2: Ton 1: Blynyddoedd 6, 7 a 9 (Sgôr Graddfa Cyfoeth Teuluoedd, nodwyd gan ymatebwyr)

Nodwedd	Nifer				Canran yr holl ymatebwyr		
	Isel	Canolig	Uchel	(Data anghyflawn)	Isel	Canolig	Uchel
Blwyddyn 6	253	434	66	(49)	31.5	54.1	8.2
Blwyddyn 7	449	772	153	(152)	29.4	50.6	10
Blwyddyn 9	463	863	178	(86)	29.1	54.3	11.2

Ffynhonnell: SQW: Arolwg Chi a'ch Ysgol 2014/15 (Cymru).
Roedd canrannau'r sgoriau Graddfa Cyfoeth Teuluoedd yn seiliedig ar gyfanswm yr ymatebwyr. Gan na atebodd rhai ymatebwyr bob un o chwe chwestiwn y Raddfa Cyfoeth Teuluoedd, nid oed modd cyfrifo eu sgôr, felly nid yw'r canrannau yn adio i 100%.

Tabl B-3: Ton 2: Blynyddoedd 7, 8 a 10 (nodweddion a nodwyd gan ymatebwyr)

Nodwedd	Ymatebwyr			Canran		
	BI 7	BI 8	BI 10	BI 7	BI 8	BI 10
Rhyw						
Bachgen	459	461	394	53	52	57
Merch	385	426	295	45	48	43
Dim data	17	7	3	2	1	0
Ethnigrwydd						
Gwyn	651	723	574	76	81	83
Cymysg/grŵp lluosog	44	24	22	5	3	3
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	22	40	21	3	4	3
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Prydeinig	13	14	16	2	2	2
Grŵp ethnig arall	14	6	8	2	1	1
Ddim am ddweud	92	69	31	11	8	4
Dim data	25	18	20	3	2	3

Ffynhonnell: SQW: Arolwg Chi a'ch Ysgol 2014/15 (Cymru)

Tabl B-4: Ton 2: Blynyddoedd 7, 8 a 10 (Sgôr Graddfa Cyfoeth Teuluoedd, nodwyd gan ymatebwyr)

Nodwedd	Ymatebwyr	Canran o'r holl ymatebwyr
---------	-----------	---------------------------

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

	Isel	Canolig	Uchel	(Data anghyflawn)	Isel	Canolig	Uchel
Blwyddyn 7	271	420	94	(76)	31.5	48.8	10.9
Blwyddyn 8	291	456	94	(52)	32.6	51.1	10.5
Blwyddyn 10	213	375	67	(37)	30.8	54.2	9.7

Ffynhonnell: Arolwg Chi a'ch Ysgol 2014/15 (Cymru) SQW. Roedd canrannau'r sgoriau Graddfa Cyfoeth Teuluoedd yn seiliedig ar gyfanswm yr ymatebwyr. Gan na atebodd rhai ymatebwyr bob un o chwe chwestiwn y Raddfa Cyfoeth Teuluoedd, nid oed modd cyfrifo eu sgôr, felly nid yw'r canrannau yn adio i 100%.

Tabl B-5: Ton 1: Blynyddoedd 7 a 9 (grwpiau ysgolion a ragdybiwyd)

Nodwedd	Ymatebwyr			Canran o'r holl ymatebwyr	
	BI 7	BI 9	Cyfanswm	BI 7	BI 9
Grŵp A (3 ysgol/5 carfan)	212	127	339	14	9
Grŵp B (8 ysgol/16 carfan)	559	541	1100	37	36
Grŵp C (8 ysgol/14 carfan)	755	822	1577	49	55
	1,526	1,490	3016	1,526	1,490

Ffynhonnell: SQW: Arolwg Chi a'ch Ysgol 2014/15 (Cymru)

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

Tabl B-6: Ton 2: Blynyddoedd 7, 8 a 10 (grwpiau ysgolion a ragdybiwyd)

Nodwedd	Ymatebwyr				Canran o'r holl ymatebwyr		
	BI 7	BI 8	BI 10	Cyfanswm	BI 7	BI 9	BI 10
Grŵp A (4 ysgol/10 carfan)	162	145	168	475	19%	16%	24%
Grŵp B (6 ysgol/14 carfan)	182	201	144	527	21%	23%	21%
Grŵp C (7 ysgol/17 carfan)	517	546	380	1443	60%	61%	55%
Cyfanswm	861	892	692	2445	100%	100%	100%

Ffynhonnell: SQW: Arolwg Chi a'ch Ysgol 2014/15 (Cymru)

Atodiad C: Dadansoddiadau ffactor o'r arolwg disgyblion

- A.15 Cwblhawyd dadansoddiadau ffactor archwiliadol er mwyn atgyfnerthu elfennau amrywiol o'r data ym mhob un o'r tri arolwg yn Nhon 1 (ar gyfer Blynyddoedd 6, 7 a 9) a Thon 2 (ar gyfer Blynyddoedd 7, 8 a 10). Mae dadansoddiadau ffactor yn edrych ar newidynnau ac eitemau sy'n cydberthyn i'w gilydd yn agos. Mae'r ffaith fod newidynnau yn cydberthyn mor agos yn awgrymu y gallant fod yn mesur elfen wahanol o fater neu ffactor sylfaenol ehangach.
- A.16 Arweiniodd y dadansoddiad at fesurau mwy cadarn o agweddau a phrofiadau disgyblion nag archwiliad o'r eitemau unigol ar yr holiadur yn unig. Hefyd, roedd yn fodd i ni gwblhau cyfres o ddadansoddiadau ychwanegol (gan ddefnyddio dadansoddiadau o amrywiant), archwilio safbwyntiau disgyblion ar eu rhyw, eu grŵp blwyddyn, eu dull o gwblhau'r arolwg, ac ar gyfer disgyblion mewn ysgolion uwchradd, y mathau gwahanol o ysgolion lle'r oeddent yn derbyn eu haddysg.
- A.17 Cwblhawyd dwy set wahanol o ddadansoddiadau ffactor yn Nhon 1:
- er mwyn archwilio'r gwahaniaethau rhwng grwpiau blwyddyn, cwblhawyd set o ddadansoddiadau ffactor a oedd yn cynnwys yr eitemau cyffredin ym mhob un o'r tri arolwg
 - er mwyn sicrhau dadansoddiad manylach ar lefel uwchradd (h.y. ym Mlynyddoedd 7 a 9), cwblhawyd rhagor o ddadansoddiadau er mwyn cynnwys eitemau yn ymwneud â chwestiynau a ymddangosodd yn arolygon disgyblion uwchradd yn unig.
- A.18 Ar gyfer Ton 2, cwblhawyd y dadansoddiadau ar gyfer y canlynol hefyd:
- Blynyddoedd 7, 8 a 10 yn unigol, a'r holl ddisgyblion uwchradd yn Nhon 2
 - Y carfannau amrywiol ar draws y blynyddoedd (er enghraifft, Carfan 1, a oedd yn cynnwys Blwyddyn 6 yn 2014/15 a Blwyddyn 7 yn 2015/16) ac un garfan drawstoriadol (Blwyddyn 7 yn 2014/15 a Blwyddyn 7 yn 2015/16) Gweler Tabl C-1)
 - Dwy garfan a oedd wedi'u holrhain (disgyblion a ymatebodd ym Mlwyddyn 7 yn 2014/15 ac eto ym Mlwyddyn 8 yn 2015/16, a disgyblion a ymatebodd ym Mlwyddyn 9 yn 2014/15 ac eto ym Mlwyddyn 10 yn 2015/16). Roedd y niferoedd mewn trydedd garfan a gafodd eu holrhain (disgyblion a ymatebodd ym Mlwyddyn 6 yn

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

2014/15 ac eto ym Mlwyddyn 7 yn 2015/16 yn rhy fach i gwblhau unrhyw ddadansoddiad ystyrlon).

Tabl C-1: Carfannau a gafodd eu cynnwys yn yr astudiaeth

	Carfan 1	Carfan 2 (trawstoriadol)	Carfan 3	Carfan 4
Ton 1	BI6	BI7	BI7	BI9
Ton 2	BI7	BI7	BI8	BI10

A.19 Cafodd eitemau'r holiadur a oedd â chysylltiad agos eu grwpio gyda'i gilydd. Canolbwyntiwyd yn benodol ar ddadansoddiadau ffactor data yn ymwneud â safbwyntiau ymatebwyr:

- ar eu hathrawon a sut roeddent yn eu helpu i ddysgu (er enghraifft, yn 2014/15 roedd hyn yn cynnwys 10 eitem holiadur ym Mlynnyddoedd 6, 7 a 9 a 12 eitem ar gyfer Blynnyddoedd 7 a 9)
- ar sut roeddent yn gweithio, i ba raddau roeddent yn teimlo y gallent gyfrannu at eu dysgu eu hunain a'u safbwyntiau ar sut oedd bywyd ysgol yn gweddu iddynt
- ar eu hysgol.

A.20 Yn dilyn y dadansoddiad, nodwyd 18 ffactor yn Nhon 1, ac roedd wyth ohonynt yn gysylltiedig â'r holl boblogaeth ar gyfer Blynnyddoedd 6 a 7, a naw ohonynt yn gysylltiedig â Blynnyddoedd 7 a 9 yn unig. Nodwyd 17 ffactor yn Nhon 2, sef 15 ar lefel poblogaeth (ac ym Mlynnyddoedd 7, 8 a 10), un ffactor ychwanegol ar gyfer Blynnyddoedd 7 ac 8 ac un ar gyfer Blynnyddoedd 8 a 10.

A.21 Defnyddiwyd Ffactoreiddio Prif Echel mewn SPSS i echdynnu'r ffactorau, a defnyddiwyd Oblimin (gyda Normaleiddio Kaiser) i'w cylchdroi, gan adlewyrchu natur heb fod yn barametrig y data. Tynnwyd unrhyw eitemau nad oeddent yn llwytho'n dda gydag unrhyw un o'r ffactorau a amlygwyd (neu a leihaodd ddibynadwyedd unrhyw sgôr ffactor, yn unol â phrawf alffa Cronbach). Nid yw hyn yn golygu nad oedd yr eitemau yn ddilys, ac roedd ond yn nodi eu bod yn eitemau unigol yn hytrach nag yn elfen o ffactor sylfaenol ehangach. Defnyddiwyd eitemau o'r fath i ddarparu ystadegau disgrifiadol ar gyfer y dadansoddiad.

A.22 Archwiliwyd **pŵer esboniadol** y ffactorau (o ran lefel yr amrywiant a eglurwyd ar lefel disgybl) a'u **dibynadwyedd** (a brofwyd drwy ddefnyddio alffa Cronbach) fel **newidyn esboniadol** ar gyfer unrhyw luniad penodol (fel ymreolaeth disgyblion). O ystyried natur eang yr holiadur a'r ffaith fod ymatebwyr yn ei gwblhau eu hunain, gyda nifer cyfyngedig o eitemau yn unig

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

wedi'u cynnwys i fesur unrhyw luniad (mae alffa Cronbach yn tueddu i fod yn is os oes nifer cyfyngedig o newidynnau alffa perthnasol yn unig), ni ddisgwylid i lawer o ffactorau trefn gyntaf fod ag elfen uchel o ddibynadwyedd. Serch hynny, roeddent yn fodd defnyddiol o awgrymu meysydd lle y gellid disgwyl gwahaniaethau o bosibl, lle y gallai lluniadau ail drefn (cyfuno eitemau ffactorau sydd eisoes yn bodoli) fod yn ddefnyddiol, neu lle y gallai arolygon y dyfodol fanteisio ar newidynnau ychwanegol (ond nid ar gyfer yr astudiaeth beilot hon).

- A.23 Roedd elfen o orgyffwrdd ar draws dwy don yr arolwg rhwng y ffactorau a nodwyd yn y grwpiau Blwyddyn a'r carfannau gwahanol, gydag eitemau a ffactorau esboniadol ychwanegol wedi'u nodi ym Mlwyddyn 7 (dros Flwyddyn 6), a Blynnyddoedd 9 a 10 (dros Flynyddoedd 7 ac 8). Dangosodd nifer o'r ffactorau (canfyddiad o effeithiolrwydd athrawon, ymgysylltiad disgyblion â'r ysgol a'u cyd-ddisgyblion, ymreolaeth disgyblion a lefel cymorth gan athrawon) ddibynadwyedd da. Roedd eraill yn dderbyniol (roedd gan nifer ohonynt ychydig o eitemau yn unig yn y ffactor) neu'n wael (gwaith cartref, mesur cynnydd a gwaith tîm). Yn y dadansoddiad dilynol o amrywiant, fe wnaethom weithio gyda'r ffactorau a oedd yn dderbyniol neu'n dda yn bennaf; cwblhawyd rhywfaint o waith dadansoddi o'r ffactorau gwannach er mwyn sicrhau canfyddiadau dangosol.

Atodiad D: Paratoi data arall i'w ddadansoddi

A.24 Roedd nifer o eitemau'r holiadur mewn fformat nad oedd yn hwyluso dadansoddiad ffactor. Defnyddiwyd rhai o'r rhain ar eu pennau eu hunain fel newidynnau esboniadol. Defnyddiwyd eraill y gellid eu lleihau i lai o newidynnau drwy ddefnyddio strategaethau i ddarparu, er enghraifft, cyfrif o weithgareddau, i greu **newidynnau deilliedig**. Cawsant eu creu er mwyn ystyried:

- Amllder a nifer yr enghreifftiau o strategaethau addysgu gwahanol
- Ansawdd ac argaeledd cyfleusterau, cyfarpar a gweithgareddau mewn ysgolion

A.25 Wedyn, defnyddiwyd dadansoddiad o amrywiant er mwyn profi'r newidynnau hyn ar gyfer unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng disgyblion ac ysgolion.

Defnyddio sgoriau'r Raddfa Cyfoeth Teuluoedd

A.26 Mae'r Raddfa Cyfoeth Teuluoedd yn fesur sy'n cael ei ddefnyddio yn yr Astudiaeth Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol i fesur 'cyfoeth materol'. Mae'n brocsi rhyngwladol ar gyfer statws economaidd-gymdeithasol sy'n disodli galwedigaeth neu addysg rhieni. Cafodd chwe eitem o'r raddfa eu cynnwys yn yr arolygon disgyblion. Yn yr Astudiaeth Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol, mae gwledydd unigol yn dadansoddi'r Raddfa Cyfoeth Teuluoedd ychydig yn wahanol. At ddibenion y dadansoddiad hwn, cafodd ymatebion disgyblion i bob un o'r chwe eitem eu codio a'u cyfuno i roi sgôr Graddfa Cyfoeth Teuluoedd isel (0-7), canolig (8-11) neu uchel (12+). Cafodd ymatebion disgyblion i'r arolwg eu profi (drwy ddefnyddio dadansoddiad o amrywiant) i weld a oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng atebion disgyblion â lefelau gwahanol o gyfoeth/amddifadedd.

Atodiad E: Dadansoddi amrywiant

A.27 Defnyddiwyd data o'r arolygon disgyblion i archwilio gwahaniaethau rhwng safbwyntiau a phrofiadau disgyblion o safbwynt:

- **oedran** (mae pob cymhariaeth yn seiliedig ar setiau data a sgoriau ffactor cyfunol Blynyddoedd 6, 7, 8, 9 a 10)
- **rhyw** (gan ddefnyddio'r ddwy set ddata gyfunol fel sy'n briodol)
- **y dull o gwblhau'r arolwg** (cwblhawyd hyn yn 2014/15 yn unig gan ddefnyddio'r setiau data cyfunol ar gyfer Blynyddoedd 6, 7 a 9, a setiau data Blynyddoedd 7 a 9)
- **Grŵp ysgol** (gan ddefnyddio setiau data Blwyddyn 7, Blwyddyn 8, Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10).

A.28 Rydym wedi defnyddio dulliau Dadansoddiad Amrywiant gwahanol ar gyfer data nad yw'n barametrig, gan ddefnyddio (fel sy'n briodol) profion Mann-Whitney U, Kruskal Wallis a Jonckheere Terpstra (defnyddiwyd yr olaf i weld a oedd newidiadau systematig yn y sgoriau cymedr). Roedd modd defnyddio'r dulliau hyn i asesu arwyddocâd unrhyw wahaniaethau rhwng poblogaethau yn erbyn un newidyn; gellid gwella dadansoddiadau yn y dyfodol drwy ddefnyddio dadansoddiadau atchweliad lluosog hierarchaidd, gan olygu bod modd cynnwys amrywiaeth o newidynnau cefndir wrth ddadansoddi canlyniadau.

A.29 Roedd y dadansoddiadau'n cynnwys:

- y newidynnau deilliedig, fel y dulliau addysgeg amrywiol y credid bod athrawon yn eu defnyddio, safbwyntiau ar ansawdd cyfleusterau ysgol a'r gweithgareddau amrywiol yr oedd pobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt yn yr ysgol
- y ffactorau a nodwyd yn ystod y dadansoddiad o ffactorau (a oedd yn 'dda' ac yn 'dderbyniol' ar sail eu sgoriau Alfa).

A.30 Dylem nodi bod y rhan fwyaf o'r effeithiau yn fach neu'n fach iawn, a hyd yn oed pan oedd canfyddiadau yn arwyddocaol, roedd y gwahaniaeth rhwng y grwpiau gwahanol yn fach.

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

Atodiad F: Ymatebion i'r Arolwg 'Chi a'ch Ysgol'

Ton 1: 2014/15

Ymatebion Blwyddyn 6 i'r Arolwg

Tabl F6-1: Rhyw'r ymatebwr

	Poblogaeth (n)	Canran ymatebwyr
Bachgen	427	53
Merch	372	46
Dim ymateb	3	0
Cyfanswm	802	100

Ffynhonnell: Arolwg 'Chi a'ch Ysgol' 2014/15
Math o gwestiwn: Un ymateb (n=802)

Tabl F6-2: Beth mae athrawon yn yr ysgol yn ei wneud i'ch helpu i ddysgu?

Mae athrawon...	Canran yr ymatebwyr			
	Yn y rhan fwyaf o bynciau	Mewn un neu ddau bwnc yn unig	Nid yw hyn yn digwydd yn fy ysgol	Ddim yn gwybod
Yn addysgu'r dosbarth cyfan gyda'i gilydd	85	13	1	1
Yn gadael i ni weithio mewn grwpiau bach	30	68	1	2
Yn awyddus i ni weithio ar ein pennau ein hunain fel arfer	66	29	2	3
Yn gofyn cwestiynau am yr hyn rydym wedi'i ddysgu	62	31	4	3
Yn defnyddio drama, actio neu chwarae rhan	8	70	19	3
Yn dod â phobl o'r tu allan i'r ysgol (byd diwydiant neu fusnes)	20	60	17	4

Ffynhonnell: Arolwg 'Chi a'ch Ysgol' 2014/15
Math o gwestiwn: Cyfres o eitemau un ymateb (n=802)

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

Tabl F6-3: Sut ydych chi'n gwybod pa mor dda rydych chi'n ei wneud yn yr ysgol?

	Canran yr ymatebwyr			
	Cytuno	Ddim yn siŵr	Anghytuno	Dim ymateb
Mae'r ysgol yn rhoi cyfle i mi siarad ag athro am ba mor dda dwi'n ei wneud	73	22	4	1
Mae'r ysgol yn rhoi cyfle i mi siarad â disgyblion hŷn am ba mor dda dwi'n ei wneud	26	38	34	3
Mae'r ysgol yn rhoi cyfle i mi siarad â disgyblion yn fy nosbarth/grŵp tiwtor am ba mor dda dwi'n ei wneud	59	27	10	3
Mae'r ysgol yn rhoi cyfle i mi osod targedau ar gyfer fy ngwaith	84	11	2	3
Mae'r ysgol yn rhoi cyfle i mi wneud profion fel y gallaf weld pa mor dda dwi'n ei wneud	79	15	3	3

Ffynhonnell: Arolwg 'Chi a'ch Ysgol' 2014/15
Math o gwestiwn: Cyfres o eitemau un ymateb (n=802)

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

Tabl F6-4: Beth ydych chi'n ei feddwl o'r athrawon yn eich ysgol?

	Canran yr ymatebwyr					
	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn siŵr	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Dim ymateb
Rydym yn cael gwaith cartref gan athrawon bob amser	23	55	13	6	2	1
Mae athrawon yn sicrhau ein bod yn gwneud ein gwaith cartref	49	35	11	3	1	1
Mae athrawon yn marcio ein gwaith bob amser	60	27	10	2	0	1
Mae athrawon yn dweud yn glir sut y dylem ymddwyn yn yr ysgol	74	22	2	1	0	1
Mae athrawon yn gweithredu os ydyn nhw'n gweld rhywun yn torri'r rheolau	58	31	7	2	1	1
Mae athrawon yn ein canmol os ydym yn gwneud yn dda	48	37	11	2	1	2
Mae athrawon yn gallu rheoli'r dosbarth	46	38	13	1	0	2
Mae athrawon yn ein helpu i wireddu ein potensial	60	30	6	1	2	0
Mae athrawon yn rhoi gwaith i ni sy'n rhy anodd	4	11	32	35	14	2

Ffynhonnell: Arolwg 'Chi a'ch Ysgol' 2014/15
Math o gwestiwn: Cyfres o eitemau un ymateb (n=802)

Tabl F6-5: Pa weithgareddau ydych chi'n cymryd rhan ynddynt yn eich ysgol?

	Canran yr ymatebwyr					
	O leiaf unwaith yr wythnos	O leiaf unwaith y tymor	O leiaf unwaith y flwyddyn	Dwi ddim yn siŵr	Nid ydym yn gwneud hyn	Dim ymateb
Gweithgareddau chwaraeon	87	6	1	4	1	0
Gweithgareddau celfyddydau (dawns/drama/cerddoriaeth)	39	30	7	15	7	2

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

ac ati)						
Defnyddio cyfrifiaduron	81	10	0	4	2	2
Clybiau gwaith cartref	21	9	2	23	42	4
Ymweld ag amgueddfeydd/orielau celf/theatrau	6	29	36	14	12	2
Ymwelwyr yn siarad yn yr ysgol	15	57	12	9	4	3

Ffynhonnell: Arolwg 'Chi a'ch Ysgol' 2014/15
Math o gwestiwn: Cyfres o eitemau un ymateb (n=802)

Tabl F6-6: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?

	Canran yr ymatebwyr				
	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn gwybod	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Rwy'n ymddwyn yn dda yn yr ysgol	36	45	15	3	1
Rwy'n gwneud ffrindiau'n hawdd yn yr ysgol	42	38	13	5	2
Mae rhai pobl yn fy mwlio neu'n fy nhrin yn wael yn yr ysgol	3	12	17	23	46
Rwy'n teimlo fy mod yn perthyn yn yr ysgol	50	32	12	3	2
Rwy'n hapus yn yr ysgol	55	32	8	2	2
Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy ngadael allan yn yr ysgol	3	7	16	32	42
Mae pobl eraill o'r un oedran yn fy hoffi	47	38	13	1	1
Rwy'n hoffi'r ysgol	58	29	8	2	2
Rwy'n teimlo'n unig yn yr ysgol	2	3	12	28	54
Rwy'n mwynhau cael marciau da	64	28	7	1	0
Rwy'n edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf yn yr ysgol	54	22	15	5	3

Ffynhonnell: Arolwg 'Chi a'ch Ysgol' 2014/15
Math o gwestiwn: Cyfres o eitemau un ymateb (n=802)

Tabl F6-7: A oes unrhyw un ac eithrio'ch athrawon yn eich helpu gyda'ch gwaith cartref?

	Poblogaeth (n)	Canran yr ymatebwyr
Oes, bob amser	206	26
Oes, weithiau	501	62
Nac oes	92	11
Ddim yn gwybod	3	0

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

Cyfanswm	802	100
----------	-----	-----

Ffynhonnell: Arolwg 'Chi a'ch Ysgol' 2014/15
Math o gwestiwn: Un ymateb: Cwestiwn hidlo (n=802)

Tabl F6-8: Pwy sy'n eich helpu gyda'ch gwaith cartref?

	Poblogaeth (n)	Canran yr ymatebwyr
Mam	618	87
Tad	428	61
Partner fy Mam	66	9
Partner fy Nhad	33	5
Brawd neu chwaer	242	34
Ffrind	210	30
Rhywun arall (e.e. perthynas)	251	36
Ddim yn gwybod	2	0

Ffynhonnell: Arolwg 'Chi a'ch Ysgol' 2014/15
Math o gwestiwn: Ymateb lluosog wedi'i hidlo (n=707)

Tabl F6-9: Ble ydych chi'n gwneud eich gwaith cartref fel arfer?

	Poblogaeth (n)	Canran yr ymatebwyr
Gartref yn fy ystafell wely	544	68
Wrth wrando ar gerddoriaeth	231	29
O flaen y teledu	224	28
Mewn lle tawel gartref	379	47
Gyda phobl eraill mewn ystafell yn y tŷ	379	47
Yn yr ysgol	42	5
Rhywle arall	114	14
Ar y ffordd i'r ysgol neu adref o'r ysgol	379	47
Mewn clwb gwaith cartref	31	4
Yn y llyfrgell	32	4

Ffynhonnell: Arolwg 'Chi a'ch Ysgol' 2014/15
Math o gwestiwn: Ymateb lluosog wedi'i hidlo (n=802)

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

Tabl F6-10: I ba raddau y mae'r datganiadau canlynol yn adlewyrchu sut rydych chi'n gweithio?

	Canran yr ymatebwyr				
	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn gwybod	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Rwy'n gallu gweithio ar fy mhen fy hun yn dda	20	40	26	11	3
Rwy'n gallu edrych am wybodaeth mewn llyfrau yn dda	20	40	26	11	3
Rwy'n mwynhau gweithio fel rhan o dîm	50	35	10	5	1
Hoffwn wneud mwy o waith ymarferol yn yr ysgol	26	27	38	7	3
Rwy'n gallu defnyddio cyfrifiaduron i ddod o hyd i wybodaeth	54	35	8	2	1
Hoffwn gael mwy o gymorth i wneud fy ngwaith cartref	8	14	24	36	17
Rwy'n gallu trefnu fy ngwaith yn dda	28	40	22	7	3
Rwy'n gallu datrys problemau yn dda	25	43	23	7	2
Rwy'n gallu gosod targedau i mi fy hun yn hawdd	18	36	32	10	3
Rwy'n mwynhau cael marciau da	63	28	6	1	1
Mae'n anodd i mi siarad yn y dosbarth	9	13	19	31	28
Rwy'n gofyn i'r athrawon os dwi ddim yn deall rhywbeth	46	39	11	3	2

Ffynhonnell: Arolwg 'Chi a'ch Ysgol' 2014/15
Math o gwestiwn: Cyfres o eitemau un ymateb (n=802)

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

Tabl F6-11: A ydych chi neu'ch ffrindiau wedi triwanta o'r ysgol hyd yn hyn eleni?

	Poblogaeth (n)		Canran yr ymatebwyr	
	Fi	Fy ffrindiau	Fi	Fy ffrindiau
Erioed	683	495	85	62
Ambell i ddiwrnod neu wers	65	123	8	15
Gwersi (neu ddyddiau) penodol	15	48	2	6
Sawl diwrnod ar y tro	5	30	1	4
Wythnosau ar y tro	16	16	2	2
Ddim yn gwybod	18	90	2	11
Cyfanswm	802	802	100	100

Ffynhonnell: Arolwg 'Chi a'ch Ysgol' 2014/15
Math o gwestiwn: Cyfres o eitemau un ymateb (n=802)

Tabl F6-12: Pa mor aml ydych chi neu'ch ffrindiau'n hwyr am wersi?

	Poblogaeth (n)		Canran yr ymatebwyr	
	Fi	Fy ffrindiau	Fi	Fy ffrindiau
Byth	552	344	69	43
Rhai gwersi	132	214	16	27
Rhai dyddiau	71	116	9	14
Bron bob dydd	17	41	2	5
Ddim yn gwybod	30	87	4	11
Cyfanswm	802	802	100	100

Ffynhonnell: Arolwg 'Chi a'ch Ysgol' 2014/15
Math o gwestiwn: Cyfres o eitemau un ymateb (n=802)

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

Tabl F6-13: Beth mae'ch rhieni/gofalwyr yn ei feddwl am yr ysgol?

	Canran yr ymatebwyr			
	Ydyn	Ddim yn siŵr	Nac ydyn	Dim ymateb
Maen nhw'n sicrhau fy mod i'n gwneud fy ngwaith cartref	83	12	3	1
Maen nhw'n dweud sut y dylwn ymddwyn yn yr ysgol	84	11	3	2
Maen nhw'n fy helpu gyda'm gwaith cartref	75	14	8	2
Maen nhw'n fy nghanmol am wneud gwaith da yn yr ysgol	79	14	4	2
Maen nhw'n dweud bod yr ysgol yn bwysig	86	9	2	3
Maen nhw'n meddwl bod hon yn ysgol dda	79	15	3	3

Ffynhonnell: Arolwg 'Chi a'ch Ysgol' 2014/15
Math o gwestiwn: Cyfres o eitemau un ymateb (n=802)

Tabl F6-14: A wnaeth eich rhieni/gofalwyr fynychu'r noson/diwrnod rhieni diwethaf yn eich ysgol?

	Poblogaeth (n)	Canran yr ymatebwyr
Do	615	77
Naddo	74	9
Ddim yn siŵr	98	12
Ddim yn gwybod	15	2
Cyfanswm	802	100

Ffynhonnell: Arolwg 'Chi a'ch Ysgol' 2014/15
Math o gwestiwn: Cyfres o eitemau un ymateb (n=802)

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

Tabl F6-15: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau hyn am eich ysgol?

	Canran yr ymatebwyr			
	Cytuno	Ddim yn siŵr	Anghytuno	Dim ymateb
Rwy'n hoffi bod yn yr ysgol y rhan fwyaf o'r amser	77	15	8	0
Mae gwaith ysgol yn werth chweil	82	13	4	1
Mae gan yr ysgol hon reolau synhwyrol	86	10	2	1
Dylai'r ysgol ganolbwyntio mwy ar ein paratoi ar gyfer profion ac arholiadau	25	35	39	2
Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn trin y disgyblion gyda pharch	86	10	2	1
Rwy'n meddwl bod hon yn ysgol dda	84	12	3	1
Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gwrandao ar lais disgyblion	80	16	3	1
Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn helpu disgyblion sy'n cael y gwaith yn anodd	88	9	1	1
Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn annog disgyblion sy'n gallu gwneud rhywbeth yn dda	81	15	2	2

Ffynhonnell: Arolwg 'Chi a'ch Ysgol' 2014/15
Math o gwestiwn: Cyfres o eitemau un ymateb (n=802)

Tabl F6-16: Beth yw'ch barn ar y gwersi a gawsoch chi yn ystod y flwyddyn ysgol ddiwethaf?

	Canran yr ymatebwyr					
	Ym mhob gwers	Mewn dros hanner fy ngwersi	Mewn tua hanner fy ngwersi	Mewn ychydig o'm gwersi yn unig	Byth	Dim ymateb
Rwy'n gweithio mor galed â phosibl yn yr ysgol	64	26	6	2	0	1
Rwy'n cyfri'r munudau nes bod y wers yn gorffen	22	10	8	27	32	1
Rwy'n teimlo'n ddiflas mewn gwersi	9	10	12	42	25	1
Mae'r gwaith rwy'n ei wneud mewn gwersi yn wastraff amser	5	3	2	15	73	1
Mae'r gwaith rwy'n ei wneud mewn gwersi yn ddiddorol	37	35	15	8	4	1

Ffynhonnell: Arolwg 'Chi a'ch Ysgol' 2014/15
Math o gwestiwn: Cyfres o eitemau un ymateb (n=802)

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

Tabl F6-17: Pa rai o'r datganiadau canlynol ydych chi'n cytuno â nhw nawr ac ar gyfer y dyfodol?

	Canran yr ymatebwyr			
	Cytuno	Ddim yn siŵr	Anghytuno	Dim ymateb
Rwy'n meddwl bod yr ysgol yn wastraff amser	6	15	78	1
Mae'n bwysig gweithio'n galed yn yr ysgol	90	6	2	1
Rwy'n edrych ymlaen at fynd i'r ysgol uwchradd	71	20	7	1
Rwyf wedi ymweld â'm hysgol uwchradd newydd	82	6	10	2
Mae fy athrawon wedi rhoi'r hyder i mi fynd i'r ysgol uwchradd	79	15	5	1
Rwy'n poeni am fynd i'r ysgol uwchradd	26	30	43	2
Rwy'n hyderus y byddaf yn gwneud ffrindiau yn yr ysgol uwchradd	67	26	5	2
Rwy'n meddwl efallai bydd y gwaith yn rhy anodd yn yr ysgol uwchradd	28	53	17	1
Dwi ddim yn hapus am feddwl gadael yr ysgol gynradd	42	31	26	2

Ffynhonnell: Arolwg 'Chi a'ch Ysgol' 2014/15
Math o gwestiwn: Cyfres o eitemau un ymateb (n=802)

Tabl F6-18: Beth yw'ch ethnigrwydd?

	Poblogaeth (n)	Canran yr ymatebwyr
Gwyn	608	76
Cymysg/Grwpiau ethnig lluosog	54	7
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	18	2
Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig	25	3
Grŵp ethnig arall	13	2
Ddim am ddweud	76	9
Dim ymateb	8	1
Cyfanswm	802	100

Ffynhonnell: Arolwg 'Chi a'ch Ysgol' 2014/15
Math o gwestiwn: Un ymateb (n=802)

Chi a'ch Arolwg Ysgol:
Adroddiad ar drosolwg o ganlyniadau'r arolwg

Tabl F6-19: Pa mor aml ydych chi'n siarad Cymraeg/Saesneg gartref?

	Poblogaeth (n)		Canran yr ymatebwyr	
	Cymraeg	Saesneg	Cymraeg	Saesneg
Bob amser (neu bron bob amser)	16	738	2	92
Weithiau	316	37	39	5
Byth	384	7	48	1
Dim ymateb	86	20	11	2
Cyfanswm	802	802	100	100

Ffynhonnell: Arolwg 'Chi a'ch Ysgol' 2014/15
Math o gwestiwn: Cyfres o eitemau un ymateb (n=802)

Tabl F6-20: Â phwy ydych chi'n byw?

	Poblogaeth (n)	Canran yr ymatebwyr
Mam	747	93
Tad	544	68
Plant eraill	528	66
Partner fy Mam	92	11
Oedolyn arall (e.e. perthynas)	69	9
Partner fy Nhad	23	3

Ffynhonnell: Arolwg 'Chi a'ch Ysgol' 2014/15
Math o gwestiwn: Ymateb lluosog (n=802)

Tabl F6-21: Beth yw cefndir addysgol eich mam a/neu'ch tad?

	Poblogaeth (n)		Canran yr ymatebwyr	
	Mam	Tad	Mam	Tad
Wedi gorffen yn yr ysgol uwchradd (15/16 oed)	134	126	17	16
Wedi astudio yn y coleg neu'r chweched dosbarth (ar ôl 16 oed)	128	95	16	12
Wedi astudio yn y brifysgol/wedi graddio	110	95	14	12
Ddim yn siŵr	417	443	52	55
Dim ymateb	13	43	2	5
